



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

Arolwg 2023 o etholaethau seneddol  
Cymru y Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

This document is available in English.  
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)


Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn [ymholiadau@ffiniau.cymru](mailto:ymholiadau@ffiniau.cymru)

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

# Cynnwys

|                  |                                                      |           |
|------------------|------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Adran A</b>   | <b>Cyflwyniad</b>                                    | <b>04</b> |
|                  | Y Comisiwn Ffiniau i Gymru                           | 04        |
|                  | Arolwg Seneddol 2023 a'r Ymgynghoriad<br>Cychwynnol  | 04        |
|                  | Yr Ail Ymgynghoriad a'r Comisiynwyr<br>Cynorthwyol   | 04        |
| <b>Adran B</b>   | Ffactorau Hanfodol (neu Statudol eraill)             | 07        |
|                  | Ystyriaethau Themateg                                | 08        |
| <b>Adran C</b>   | <b>Ein Hargymhellion</b>                             | <b>11</b> |
|                  | Gorllewin Cymru                                      | 11        |
|                  | Ardal Abertawe                                       | 12        |
|                  | Castell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont at Ogwr         | 13        |
|                  | Bro Morgannwg a Phorthcawl                           | 14        |
|                  | Ardal Caerdydd                                       | 15        |
|                  | Cymoedd Morgannwg                                    | 16        |
|                  | Ardal Gwent                                          | 17        |
|                  | Y Canolbarth a'r Gogledd-orllewin                    | 18        |
|                  | Arfordir y Gogledd a'r Cyffiniau                     | 20        |
|                  | Y Gogledd-ddwyrain                                   | 21        |
|                  | Ynys Môn                                             | 22        |
| <b>Adran Ch</b>  | Enwi a Dynodi                                        | 23        |
|                  | Materion Eraill                                      | 23        |
|                  | Casgliad                                             | 24        |
| <b>Atodiad A</b> | <b>Gwybodaeth a Data Manwl am Wardiau Etholiadol</b> |           |
| <b>Atodiad B</b> | <b>Map Enghreifftiol</b>                             |           |



## Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (y "Comisiwn") yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a gyfansoddwyd o dan Adran 2 ac Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 ("y Ddeddf"), fel y'i diwygiwyd.
2. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw arolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol yn barhaus, cynnal y cyfryw arolygon rheolaidd o'r ffiniau hyn fel yr ystyrir yn angenrheidiol gan y Senedd a gwneud adroddiadau gydag argymhellion.
3. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex officio pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig, sy'n gweithredu ar wahân, ond ar y cyd yn gyffredinol, ar yr arolwg presennol hwn.

## Arolwg Seneddol 2023 a'r Ymgynghoriad Cychwynnol

4. Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig na fyddai'n gweithredu argymhellion arolwg blaenorol yn 2018. Wedi hynny, pasiodd y Senedd Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020 a bennodd 650 o seddau, ond gan eu hailddosbarthu ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar gyfran gyfartal o nifer yr etholwyr cofrestredig ym mhob un.
5. Mae hyn yn gostwng nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 32 neu 20%. Fodd bynnag, eithriodd Deddf 2020 nifer fach o etholaethau gwarchodedig o'r arolwg. Mae un etholaeth o'r fath yng Nghymru (Ynys Môn). Yn unol â hyn, mae'r broses hon yn ymwneud â'r tri deg un arall, i bob pwrpas. Mae cymhwyso'r fformiwla rifyddol yn Neddf 2020 yn golygu bod rhaid i bob etholaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n destun arolwg gynnwys lleiafswm o 69,724 o etholwyr cofrestredig ac uchafswm o 77,062, gan ystyried y polisi datganedig o leihau'r gwahaniaeth o Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig (UKEQ) gymaint â phosibl.
6. Ar 5 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau arolwg 2023 yng Nghymru. Ar 8 Medi 2021, dechreuodd gyfnod ymgynghori cychwynnol ar ôl cyhoeddi Cynigion Cychwynnol wedi'u seilio ar ddata etholiadol sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Caeodd y cyfnod ymgynghori cychwynnol hwn ar 3 Tachwedd 2021 a derbyniwyd **1211** o ymatebion ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar wefan y Comisiwn wedi hynny<sup>1</sup>.

## Yr Ail Ymgynghoriad a'r Comisiynwyr Cynorthwyol

7. Mae gwaith y Comisiwn yn cael ei oruchwylio gan bedwar Comisiynydd (gan gynnwys Llefarydd Tŷ'r Cyffredin); ond mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol (ar sail cyfnod penodol) i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni eu swyddogaethau. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio (pan roedd angen) a chymryd rhan yn y gwrandawiadau cyhoeddus a rhoi adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn yn seiliedig ar dystiolaeth a dderbyniwyd yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig.
8. Penodwyd pedwar Comisiynydd Cynorthwyol ar gyfer Arolwg 2023 yng Nghymru trwy gystadleuaeth agored. Rhestrir y Comisiynwyr Cynorthwyol ar ddiwedd yr adroddiad hwn ac mae bywgraffiadau ar gael ar wefan y Comisiwn.


<sup>1</sup> comffin-cymru.gov.uk

9. Ni fuom yn rhan o'r broses o lunio'r Cynigion Cychwynnol ac mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio'n unig ar y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gyflwynwyd yn Gymraeg neu Saesneg, gan drin y cyfan yn gydradd. Manylwn ar y newidiadau a argymhellwn i'r Cynigion Cychwynnol yn Adran C isod; ond mater i'r Comisiynwyr yn gyfan gwbl yw penderfynu p'un a ddylai'r cyfryw newidiadau gael eu mabwysiadu.

10. Roedd cynrychiolaethau niferus yn gwrthwynebu lleihau'r etholaethau yng Nghymru ac, yn fwy anuniongyrchol, yr amrediad etholwyr statudol. Fodd bynnag, nid rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol (na'r Comisiwn ei hun) yw mynd i'r afael â materion o'r fath. Fe'u pennwyd gan y Senedd ac maent bellach yn faterion cyfraith. Ein rôl yw cymhwyso'r amrediad a'r ffactorau eraill yn deg a gorau y gallwn, yn gyson â statud ac unrhyw arweiniad perthnasol a'r amgylchiadau cyffredinol ym mhob rhan o Gymru.

11. Cynhaliwyd ail gyfnod ymgynghori o 17 Chwefror 2022 tan 30 Mawrth 2022, a oedd yn cyd-fynd â dechrau a diwedd rhaglen o bum gwrandawriad cyhoeddus ledled Cymru. Rhoddir manylion pellach am y gwrandawriadau cyhoeddus isod. Fe'u trefnwyd yn wreiddiol i ddechrau ym mis Ionawr 2022; ond bu'n rhaid gohirio pedwar o'r pum gwrandawriad o ganlyniad i gyfyngiadau iechyd y cyhoedd (coronafeirws) a oedd ar waith bryd hynny.

12. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori hwn, cafwyd **156** o gynrychiolaethau ysgrifenedig. Cyhoeddwyd y rhain ar wefan y Comisiwn unwaith eto.




13. Rydym wedi darllen yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a'r trawsgrifiadau o'r gwrandawiadau cyhoeddus. Cafwyd llawer mwy o ymatebion nag mewn arolygon blaenorol ac rydym yn ddiolchgar bod cynifer o bobl wedi ymroi cymaint o amser ac ymdrech i wneud cyfraniad hanfodol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod na fyddwn yn gallu bodloni pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriadau – nid y lleiaf oherwydd bod y sylwadau a gafwyd yn rhychwantu'r sbectrwm cyfan: o gefnogaeth gref i'r Cynigion Cychwynnol i wrthwynebiad chwyrn i unrhyw newid, ac roedd y sylwadau a gafwyd yn aml yn anghydnaws â'i gilydd.

14. Rydym hefyd yn ddiolchgar am broffesiynoldeb a chefnogaeth Prif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r staff.

Mae'r tabl isod yn rhestru manylion y gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd:

| Gwrandawriad                  | Siaradwyr | Arsylwyr       |            | Cyfanswm   |
|-------------------------------|-----------|----------------|------------|------------|
|                               |           | Wyneb yn wyneb | Ar-lein    |            |
| Caerdydd<br>17 Chwefror 2022  | 25        | 12             | 36         | 73         |
| Wrecsam<br>23 Chwefror 2022   | 10        | 4              | 17         | 31         |
| Abertawe<br>1 Mawrth 2022     | 28        | 8              | 25         | 61         |
| Bangor<br>9 Mawrth 2022       | 6         | 1              | 14         | 21         |
| Aberystwyth<br>30 Mawrth 2022 | 12        | 2              | 14         | 28         |
| <b>Cyfanswm</b>               | <b>81</b> | <b>27</b>      | <b>106</b> | <b>214</b> |



## Adran B:

15. Mae'r adran hon o'n hadroddiad mewn dwy ran:

- Yn gyntaf, ailadroddwn y ffactorau hanfodol sy'n llywodraethu ein hymagwedd at y dystiolaeth ynglŷn â'r Cynigion Cychwynnol a'n hargymhellion; ac
- Yn ail, manylwn ar y prif themâu sy'n deillio o'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a'n hystyriaeth ohoni. Sylwer: gwnaethom ystyried yr holl gynrychiolaethau; ond nid oedd yn ymarferol adlewyrchu pob manylyn o'r ddadl gyfan yn yr adroddiad hwn. Felly, cyfodiad o'r dystiolaeth ydyw.

### Y Ffactorau Hanfodol (neu Statudol eraill)

16. Mae'r ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd ati uchod yn gosod y paramedrau. Manylir ar y rhain yn y Cynigion Cychwynnol (ac mewn mannau eraill), felly nid oes angen eu hailadrodd yn fanwl yma.

17. Fodd bynnag, pwysleiswn fod Deddf 2020 wedi darparu sail gwbl newydd i'r arolwg hwn. Mae rhai cynrychiolaethau wedi datgan – neu awgrymu o leiaf – y dylai'r driniaeth a roddwyd i etholaethau mewn arolygon blaenorol gael ei hystyried neu hyd yn oed osod cynsail o ryw fath. Nid ydym yn rhannu'r farn hon ac nid ydym wedi dilyn yr hyn a wnaed yn flaenorol. Roedd yr arolwg blaenorol wedi'i seilio ar nifer wahanol o etholaethau ac amrediad etholiadol statudol gwahanol, ac nid oedd unrhyw etholaethau gwarchodedig yng Nghymru.

18. Er hynny, mae uchafiaeth yr amrediad etholwyr statudol (neu UKEQ) yn parhau o ran y Ddeddf a pholisi'r Comisiwn (Rheol 2), a rhoddir blaenoriaeth iddo dros y ffactorau eraill (Rheol 5) sy'n cynnwys:

- Cysylltiadau lleol sy'n cael eu gwella (neu eu hamharu) gan newidiadau i ffiniau etholaethau. Yn hollbwysig yng nghyd-destun Cymru, mae hyn yn cynnwys **y Gymraeg**, materion diwylliannol eraill a hunaniaeth gymunedol – er y daethom ar draws ystod o ddiffiniadau o gymuned – rhai yn fwy darbwylol nag eraill;
- Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys hygyrchedd etholaeth arfaethedig neu ran sylweddol ohoni o ran trafnidiaeth gyhoeddus a/neu'r rhwydwaith ffyrdd;
- Cyfleustra cyffredinol (neu beidio); a
- Ffiniau etholaethau presennol a'u cysylltiad ag ardaloedd prif awdurdod lleol.

19. Yn unol â hynny, argymhellwn newidiadau sy'n ceisio sicrhau bod yr etholaethau'n adlewyrchu'r meini prawf hyn yn well (ar yr un pryd â sicrhau bod pob un o fewn yr amrediad etholiadol statudol). Roeddem o'r farn bod y ffactorau uchod yr un mor bwysig â'i gilydd ac nad oedd unrhyw un yn drech na'r lleill. Daethom i'r casgliad hefyd ei bod yn annhebygol iawn y byddai modd bodloni'r holl ffactorau wrth edrych ar etholaethau unigol. Ymdriniwn â hyn yn fanylach ym mharagraff 25 isod.

## Ystyriaethau Thematig

20. Fe allai helpu i ddeall ein sail resymegol yn well petaem yn ymhelaethu ar y ffordd y defnyddiom y ffactorau statudol a restrir uchod.

21. Gan barchu'r paramedrau neu'r cyfyngiadau, ni aethom i'r afael â'r dasg fel "ymarfer rhifau" yn unig. Rydym wedi ceisio creu ffiniau sydd, i'r graddau mwyaf posibl, yn gydlynol ac yn adnabyddadwy mewn cymunedau. Mater i eraill ei farnu yw p'un a ydym wedi llwyddo (yn rhannol o leiaf) ai peidio.

22. Mae'r rhyng-gysylltiad hwn yn arwain at faterion penodol yng Nghymru am ddau brif reswm:

- Yn gyntaf, yn fras, mae tua 90% o'r boblogaeth yn byw o fewn oddeutu pum milltir ar hugain o arfordir y gogledd neu'r de ac mae dwysedd y boblogaeth yn amrywio'n enfawr ledled y wlad<sup>1</sup>. Mae'r crynodiad/teneurwydd etholwyr hyn yn creu her wrth fodloni'r amrediad etholwyr a chydbwysu'r ffactorau statudol eraill.

Er enghraifft, mae'r cwmipas ar gyfer ychwanegu wardiau at etholaeth/tynnu wardiau oddi wrth etholaeth mewn ardaloedd trefol (y mae rhai yn cynnwys 8-10,000 o etholwyr) yn gyfyngedig iawn gan ei fod yn arwain yn gyflym at ansefydlogi'r amrediad etholwyr yn yr etholaeth honno a/neu'r rhai cyfagos – yn ogystal â'r posibilrwydd o fethu â bodloni'r polisi datganedig o wyro cyn lleied â phosibl oddi wrth yr UKEQ. At hynny, os bydd gormod o etholaethau'n gostwng yn sylweddol islaw'r UKEQ<sup>2</sup>, bydd hynny'n gadael etholwyr dros ben, y gall fod yn anodd eu cynnwys mewn cynigion cydlynol ar gyfer rhannau eraill o Gymru.

Mewn cyferbyniad, mae trosglwyddo wardiau tenau eu poblogaeth rhwng etholaethau mewn ardaloedd gwledig (y mae llawer ohonynt yn cynnwys tua 700-800 o etholwyr neu lai) yn rhoi mwy o hyblygrwydd; ond mae'n gallu cynhyrchu canlyniadau gwrthnysig o safbwynt lleol; ac

- Yn ail, mae'r UKEQ yn gallu arwain at dyndra â'r ffactorau statudol eraill neu rhyngddynt. I ryw raddau, mae hyn yn dod i'r amlwg yn y cynrychiolaethau a gafwyd wrth ymateb i'r Cynigion Cychwynnol, a oedd yn canolbwyntio ar gymuned neu etholaeth benodol.

Mae hyn yn rhesymol ar un lefel ac weithiau wedi cynhyrchu opsiwn cydlynol ar gyfer yr ardal dan sylw; ond, yn aml, roedd hefyd yn cynnwys canlyniad llai cystal mewn etholaeth gyfagos: mewn llawer o achosion, byddai'r canlyniad hwn yn un a fyddai'n methu'r prawf, yn ôl pob tebyg, pan fyddai'r ffactorau statudol yn cael eu cymhwyso'n gyffredinol. Roedd llawer o gynrychiolaethau'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr etholaeth lle'r oedd yr ysgrifennwr/siaradwr yn byw heb unrhyw gyfeiriad at y canlyniadau mewn ardaloedd cyfagos. Efallai bod hyn yn ddealladwy; ond nid oeddem ni mewn sefyllfa i'w hanwybyddu gan fod ein cylch gorchwyl yn rhychwantu Cymru gyfan.

23. Nid ydym yn beirniadu'r cynrychiolaethau na'r amrediad etholwyr statudol (a'r fformiwla fathemategol y tu ôl iddo) – byddai unrhyw ddewis amgen synhwyrol â'r un amcan yn cynhyrchu canlyniad tebyg. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos ar sail Cymru gyfan nad oes datrysiad perffaith. Felly, mae cyfaddawdu'n elfen hanfodol ym mha ddatrysiad bynnag a nodir.

24. Mae hefyd angen amlygu bod y driniaeth a roddwyd i etholaeth Brycheiniog a Maesyfed yn elfen gyffredin o'n dadansoddiad ar draws rhannau mawr o Gymru. Mewn geiriau eraill, mae effaith (neu effaith ddomino) yr hyn sy'n digwydd yno yn cael ei themlo ymhellach o lawer i ffwrdd: yng Nghymoedd Tawe ac Aman Uchaf yng nghyd-destun y Cynigion Cychwynnol; yn Sir Fynwy ac ardal ehangach Gwent yng nghyd-destun rhai gwrthgynigion a hefyd yng nghyffiniau arfordir Gogledd Cymru. Archwiliwn y materion hynny'n fanwl yn yr adran nesaf.

25. Nodwn hefyd y "caiff" y Comisiwn (yn hytrach na bod "rhaid" iddo) ystyried y ffactorau statudol o dan Reol 5. Gwnaethom hynny; ond rhoddwyd mwy o bwys i rai yn hytrach nag eraill yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Yn arbennig, ni ddewisom ddarostwng hunaniaeth gymunedol i unrhyw ddehongliad neu gymhwysiad llythrennol o'r rheolau, er gwaethaf rhai cyflwyniadau bod y rheolau'n orfodol mewn rhyw ffordd. Yn y cyd-destun hwn, dibynnwn ar eiriad Rheol 5.1 yn Atodlen 2 y

1 2620 o bobl fesul cilomedr sgwâr yng Nghaerdydd o gymharu â 25.7 ym Mhowys (2020) – gweler <https://stats.wales.gov.wales>.

2 73,393 fesul etholaeth.



Ddeddf sy'n caniatáu i'r Comisiwn ystyried y ffactorau a restrir uchod "os ac i'r graddau y gwêl orau".

26. Yn y cyd-destun hwn, ac yn erbyn y paramedrau a ddiffiniwyd ar gyfer yr arolwg, cododd nifer o faterion. Er enghraifft:

- Yn ein barn ni, mae 20% yn llai o etholaethau'n awgrymu mwy o anghysondeb (neu lai o gydffiniaeth) rhwng eu ffiniau nhw a ffiniau prif awdurdodau lleol. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i etholaethau presennol: nid yw'r Cynigion Cychwynnol yn cydymffurfio â nhw i raddau helaeth ac nid yw ein cynigion ni'n wahanol. Rydym wedi canfod ei bod yn amhosibl lleihau nifer yr etholaethau 20% a gwarchod ffiniau presennol i raddau helaeth.

At hynny, er bod y Comisiwn yng Nghymru wedi cwblhau ei raglen o arolygon etholiadol awdurdod lleol, roedd amseriad cyhoeddi'r Gorchmynion Etholiadol yn golygu bod y rheolau ar gyfer yr arolwg hwn yn mynnu bod y wardiau etholiadol presennol neu flaenorol yn cael eu defnyddio. Yn unol â hynny, y rhain oedd pennaf yn ein meddyliau, nid ffiniau eraill.

- Roedd yn hanfodol cymhwyso'r egwyddorion hyn yn gydradd ac yn wrthrychol i bob rhan o Gymru, heb ffafriaeth i un ardal dros un arall. Felly, ni roddom unrhyw bwys i ddadleuon a oedd yn awgrymu y dylai un etholaeth neu ardal gael blaenoriaeth neu statws na roddwyd i eraill.

- O ran cysylltiadau lleol, cyfleustra neu ffactorau ystyriaeth ddaearyddol arbennig, ceisiom ddefnyddio ychydig o synnwyr cyffredin. Felly, er enghraifft, pan allai rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus neu ffyrdd ynysu ardal sylweddol o etholaeth arfaethedig, ceisiom osgoi'r canlyniad hwnnw (yn enwedig unrhyw "rannau datgysylltiedig"). Ond pan oedd cyrraedd dau bwynt yn yr un etholaeth yn golygu croesi ffin ar hyd ffordd am bellter byr, nid oeddem yn ystyried bod hynny'n sylweddol yn ymarferol. Defnyddiwyd dull tebyg wrth ystyried p'un a ddylai afonydd, mynyddoedd a nodweddion naturiol eraill ffurfio rhan o ffin.

- Myfyriom hefyd ar faterion fel cysylltiadau lleol/rhanbarthol yn y gymuned fusnes a phatrymau darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd o Gymru lle mae pobl yn croesi ffiniau gweinyddol yn ddyddiol. Yn ein barn ni, dyma'r hyn sy'n bwysig i gymunedau, nid llinellau ar fapiau – ond ychwanegwn amod.

Mynegodd nifer o gynrychiolaethau bryder ynglŷn ag effaith yr arolwg – heb ystyried y canlyniad bron – ar wasanaethau lleol (ysbytai, ysgolion, trafniadaeth gyhoeddus ac eraill). Fodd bynnag, er bod y rhain yn ystyriaethau perthnasol iawn o ran cysylltiadau lleol, cysylltiadau trafniadaeth a ffactorau cymunedol eraill, nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng ffiniau etholaethau Seneddol a ffurfweddiad darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Materion ar wahân yw'r rhain i'r awdurdod lleol, y bwrdd ieuchyd, y trydydd sector neu ddarparwr arall, a hynny o fewn cwrdd Llywodraeth Cymru i raddau helaeth iawn. Mewn geiriau eraill, mae'r gwasanaethau hyn wedi'u datganoli ac felly ni fyddai'r arolwg hwn yn effeithio arnynt.

- Yn allweddol, rhoddodm bwyslais penodol ar y cyd-destun a ddarperir gan yr iaith Gymraeg; a
- Hefyd demograffeg cymunedau ethnig lleiafrifol o dan y ffactor statudol sy'n trafod yr agweddau diwylliannol ar gysylltiadau lleol<sup>3</sup>.

27. Y tu hwnt i'r amrediad etholiadol statudol, nid yw polisi'r Comisiwn yn amlygu hierarchaeth o ffactorau eraill, nac felly'r Ddeddf. Rydym wedi ceisio defnyddio'r egwyddorion yn gyson; ond nid yn gaeth gan eu bod yn berthnasol yn wahanol mewn rhannau o Gymru yn dibynnu ar nodweddion cymunedau lleol. Unwaith eto, cyfeiriwn at Reol 5.1 yn hyn o beth, fel yr esbonnir uchod.

28. Felly, roedd rhai dadleuon yn fwy amherthnasol nag eraill yn ein hystyriaethau yn dibynnu ar yr amgylchiadau hynny. Rydym hefyd wedi rhoi pwys i ansawdd (a gwrthrychedd) y dystiolaeth a dderbyniwyd yn hytrach na'r swm a dderbyniwyd ynglŷn ag unrhyw fater penodol neu ardal benodol – er nad ydym wedi anwybyddu pwys y farn mewn rhai achosion pan oedd yn llethol. Ond nid yw hynny'n golygu ein bod o reidrwydd yn cytuno â'r holl safbwyntiau o'r fath ychwaith.



29. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr; ond roedd nifer o wrthwynebiadau a gododd droeon i'r Cynigion

<sup>3</sup> Ond nid ydym yn cytuno bod angen i gymuned leiafrifol gael ei chynrychioli gan un Aelod Seneddol i'r graddau mwyaf posibl: dadl a wnaed mewn gwrandawriad cyhoeddus ynglŷn ag etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Cychwynnol ar lefel leol yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, gan gynnwys:

- Llangynnwr a Maenclochog yng Ngorllewin Cymru;
- Cyfansoddiad etholaethau yn ardal Abertawe;
- Cymoedd Tawe ac Aman Uchaf;
- Dinas Powys, Ffynnon Taf a Phont-y-clun a'u cysylltiadau â Chaerdydd;
- Cymunedau Cwm Cynon a Nelson yn ogystal ag etholaeth Caerffili ei hun; a
- Chymunedau Bagillt, Bangor, Bethesda a sawl ardal o fewn ac o amgylch Wrecsam (yn nodedig Brymbo a Mwynglawdd) yng Ngogledd Cymru.

30. Ers cwblhau'r ail ymgynghoriad a'r gwrandawiadau cyhoeddus, rydym wedi nodi cynnig sy'n dod i'r amlwg o ddwy blaid wleidyddol yn y Senedd i fabwysiadu canlyniad terfynol arolwg 2023 fel y sail i gynyddu nifer aelodau'r Senedd – yn y tymor byr o leiaf. Mater i'r Senedd yn gyfan gwbl yw hyn ac nid yw o fewn ein cylch gorchwyl.



## Ein hargymhellion

31. Trown yn awr at ein hargymhellion a'r sail resymegol iddynt. Pan gytunwn â'r Cynigion Cychwynnol a'r sail resymegol iddynt, dywedwn hynny ac esboniwn pam yn fyr. Felly, mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar y newidiadau a gynigiwn.

32. Nodwn hefyd y materion allweddol a godwyd mewn tystiolaeth gan y pleidiau gwleidyddol cymwys<sup>1</sup> a'n casgliadau yn hyn o beth<sup>2</sup>. Mewn rhai achosion, roedd y pleidiau'n cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ond wedi awgrymu enwau amgen ar gyfer etholaethau. Awgrymwn ddewisiadau amgen pan fo'n briodol ac ystyriwn faterion ehangach ynglŷn ag enwi a dynodiad tua diwedd ein hadroddiad.

33. Er cyflawnrwydd, nodwn fod Llafur Cymru, Ceidwadwyr Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gwneud cyflwyniadau atodol yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori<sup>3</sup>. Yn fras, fodd bynnag, roedd y rhain yn ailadrodd yr hyn yr oedd pob un ohonynt wedi'i ddweud yn flaenorol gyda rhai eithriadau (yn nodedig yng nghyflwyniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru); ond roeddent hefyd yn beirniadu eu gwrthgynigion ei gilydd i raddau sylweddol.

34. Er hwylustod cyfeirio isod, mae ein hargymhellion wedi'u rhannu rhwng rhanbarthau o Gymru. Nid oes unrhyw arwyddocâd arall i'r rhanbarthau hyn ac mae rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt. Rhoddir rhestr lawn o sut mae pob ward etholiadol yn cael ei dyrannu i etholaeth arfaethedig yn Atodiad 1.

### GORLLEWIN CYMRU

35. Cymeradwywn y Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â dyluniad sylfaenol etholaeth **Ceredigion Preseli**. Roedd cefnogaeth gyffredinol iddynt hefyd gan y pleidiau gwleidyddol cymwys<sup>4</sup>.

36. Cydnabyddwn sylwadau bod yr etholaeth arfaethedig yn rychwantu ardal ddaearyddol gymharol fawr (a'r heriau sy'n gysylltiedig â hynny); ond ar y llaw arall, mae'n fyr iawn o'r ardal fwyaf a ganiateir, sef 13,000km<sup>2</sup> – ac, o ystyried teneurwydd y boblogaeth, mae ardaloedd mawr a rychwantir gan un etholaeth yn anochel ac eisoes yn digwydd.

37. Deuwn i'r casgliad hefyd fod y ffiniau a gynigir yn dilyn y cysylltiadau ffyrdd mwyaf cyfleus sydd ar gael ac yn gweddu orau i'r ffiniau gweinyddol a naturiol, hynny yw, rhwng ardaloedd prif awdurdod lleol Ceredigion a Phowys yn weinyddol ac Aber Dyfi yn naturiol. Ni welsom unrhyw fantais pe byddai'r etholaeth yn croesi'r naill na'r llall.

38. Fodd bynnag, argymhellwn rai newidiadau yn ne'r etholaeth. Roedd mwyafrif helaeth y cynrychiolaethau'n dadlau y dylai ward etholiadol Maenclochog (a gynhwyswyd i ddechrau yn etholaeth Canol a De Sir Benfro) fod o fewn Ceredigion Preseli yn seiliedig ar gysylltiadau lleol, er bod yr Aelod Seneddol dros Breseli Sir Benfro yn gwrthwynebu. At ei gilydd, cytunwn â'r trosglwyddiad hwn.

39. Fodd bynnag, er mwyn aros o fewn yr amrediad etholiadol statudol yn y ddwy etholaeth, mae angen addasiad i

1 Mae hyn yn golygu plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru â'r Comisiwn Etholiadol ac sydd ag un Aelod Seneddol o leiaf yn y rhanbarth/y wlad dan sylw neu sydd wedi derbyn o leiaf 10% o'r bleidlais yn yr Etholiad Cyffredinol diweddaraf yno.

2 DS Roedd cyflwyniad Llafur Cymru wrth ymateb i'r Cynigion Cychwynnol yn cytuno â mwyafrif llethol y cynigion hyn, oni nodir fel arall.

3 Sylwer: Nid oedd Plaid Cymru wedi darparu ail gyflwyniad swyddogol; ond gadawsant gopiau o'u cyflwyniad yn y gwrandawriad cyhoeddus olaf (fel y gwnaeth y pleidiau gwleidyddol eraill cymwys).

4 Er bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyfeirio i ddechrau at gynnig amgen gan Gyngor Sir Ceredigion; gwnaethant dynnu eu cefnogaeth yn ôl wedi hynny. Sut bynnag, credwn fod hyn yn arwain at ganlyniadau llai cystal gan ei fod yn cael effaith niweidiol ar etholaethau cyfagos. Felly, nid ydym yn ei gefnogi.

wneud iawn y ffordd arall. Felly, cynigiwn fod wardiau etholiadol Tyddewi, Solfach a Threletert yn cael eu cynnwys yn etholaeth **Canol a De Sir Benfro/Mid and South Pembrokeshire**. Cefnogwyd trosglwyddo Tyddewi a Solfach gan Lafur Cymru a Phlaid Cymru, ac mewn gwrandawriad cyhoeddus gan gynrychiolydd o Blaid Lafur yr etholaeth leol yn benodol o ran Treletert (er nad oedd y pleidiau gwleidyddol yn cefnogi cynnwys Treletert yn y trosglwyddiad).

40. O ran etholaeth Canol a De Sir Benfro ehangach, nodwn rai cynrychiolaethau o natur leol yn y bôn; ond, unwaith eto, deawn i'r casgliad bod y Cynigion Cychwynnol yn cynrychioli'r ôl troed gorau sydd ar gael. Felly, fe'u cefnogwn (fel y mae'r holl bleidiau gwleidyddol cymwys).

41. Gan droi at etholaethau **Caerfyrddin a Llanelli**, fe'u hystyriom gyda'i gilydd i raddau helaeth, gan fod eu hagosrwydd yn golygu bod cyfansoddiad un yn effeithio'n uniongyrchol ar y llall. At hynny, gyda'i gilydd, maen nhw'n cynrychioli ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin.

42. Mae tair o'r pleidiau gwleidyddol cymwys yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol yn gyffredinol; ond fe archwiliom wrthgynigion, gan gynnwys un gan Blaid Cymru. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu ymestyn etholaeth Llanelli i'r gorllewin o aber Tywi ac ni allwn gefnogi cynnwys cymunedau fel Llansteffan a Thalacharn ynddi, oherwydd eu cysylltiadau lleol yr oeddem yn fodlon eu bod gyda Chaerfyrddin ac nid Llanelli.

43. Ystyriom hefyd yr achos dros uno ardal Rhydaman ag etholaeth Llanelli. Fodd bynnag, at ei gilydd, deawn i'r casgliad fod cysylltiadau lleol a mynychder y Gymraeg (a ffactorau eraill) ar draws y ddwy etholaeth yn cael eu gwasanaethu'n well gan ffurfweddiad y Cynigion Cychwynnol. Felly, fe'u cefnogwn, gydag un eithriad lleol.

44. Yr eithriad hwnnw yw cymuned Llangynnwr. Roedd cynrychiolaethau niferus yn gwrthwynebu ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli ac rydym ni'n cytuno. Mae'n rhan *de facto* o dref Caerfyrddin ac yn cynnwys yr orsaf reilffordd a'r orsaf heddlu o fewn Pencadlys Heddlu Dyfed Powys. Yn unol â hynny, argymhellwn ei bod yn cael ei chynnwys yn etholaeth Caerfyrddin. Cefnogir y safbwynt hwnnw gan Geidwadwyr Cymru a Phlaid Cymru yn ogystal â Chyngor Sir Caerfyrddin.

45. Cydnabyddwn y byddai'r trosglwyddiad hwn yn gadael etholaeth Llanelli yn agos iawn i leiafswm yr amrediad etholiadol statudol (pe na byddai unrhyw newidiadau eraill yn cael eu gwneud); ond ni fyddai'n mynd yn is na'r trothwy hwnnw. Dyma'r rheswm hefyd, yn y bôn, pam nad oeddem yn gallu bodloni cynrychiolaethau eraill a oedd yn cynnig trosglwyddiadau o Lanelli i Gaerfyrddin.

46. Yn ogystal, gwnaed gwrthgynigion gan Geidwadwyr Cymru (a chan Blaid Cymru mewn perthynas â Saron) a oedd yn argymhell trosglwyddo wardiau etholiadol St Ismael a Llangynderyn o Lanelli i Gaerfyrddin gydag addasiad i wneud iawn y ffordd arall yn ymwneud â wardiau etholiadol Saron a Phen-y-groes. Roeddem yn cydymdeimlo mewn egwyddor (yn enwedig o ystyried cynrychiolaethau a gafwyd o Lanyfferi); ond nid oeddem yn gallu ei fabwysiadu oherwydd fe'n cynghorwn oni bai bod ward etholiadol Llandybïe yn cael ei chynnwys gyda Saron/Pen-y-groes hefyd, byddai'n arwain at gymuned hollt, sy'n groes i bolisi'r Comisiwn oni bai bod rhesymau cymhellol. Fodd bynnag, byddai cynnwys Llandybïe yn golygu bod etholaeth Caerfyrddin yn gostwng islaw'r lleiafswm etholiadol statudol.

## ARDAL ABERTAWE

47. Dyma ble mae "ffactor Brycheiniog a Maesyfed" yn cael ei deimlo yn gyntaf. Yn y bôn, oherwydd nid ydym yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon (gweler isod).

48. Ein man cychwyn oedd pennu ffurfweddiad sy'n adlewyrchu'r cymunedau dan sylw orau yng nghyd-destun y ffactorau statudol. Mae nifer o wahanol drynewidiadau; ond, er enghraifft, nid ydym yn cefnogi'r syniad y dylai etholaeth groesi'r ffin awdurdod lleol rhwng Dinas a Sir Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

49. Mae ein cynigion wedi'u sbarduno gan ddau brif ffactor yn seiliedig ar y maen prawf cysylltiadau lleol. Yn gyntaf, credwn yn gryf y dylai Cymoedd Tawe ac Aman Uchaf fod yn rhan o'r ystyriaethau yn yr ardal hon<sup>5</sup>, ac mae hyn yn golygu

<sup>5</sup> Pwynt a wnaed yn gryf gan gynrychiolwyr etholedig Llafur Cymru yn lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a llawer o bobl eraill.

bod angen newid ffurf etholaethau i fodloni'r amrediad etholiadol statudol. Mae holl gysylltiadau cymdeithasol, economaidd, cymunedol a gweinyddol yr ardal gyda chytref Abertawe/Castell-nedd. Byddai ei chynnwys o fewn etholaeth wedi'i seilio ar Sir Powys yn bodloni ond ychydig, os unrhyw un, o'r ffactorau statudol yn ein barn ni.

50. Yn ail, amlygodd y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar y canlynol:

- Amheuan penodol ynglŷn â dyluniad etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe yn y Cynigion Cychwynnol sy'n cynnwys ffin sy'n rhannu ardal weinyddol y Cyngor, i raddau helaeth, o'r gogledd i'r de o wardiau etholiadol lled-wledig/gwledig Pontarddulais a Mawr i ganol y ddinas a'r arfordir, gan gynnwys rhwydwaith ffyrdd nad yw'n cyd-fynd â'r ffin, yn rhannol o leiaf. Gwnaed pwyntiau yn y cynrychiolaethau ysgrifenedig a chan yr Aelodau Seneddol dros Orllewin Abertawe (mewn gwrandawriad cyhoeddus ac yn ysgrifenedig) a Gŵyr (yn ysgrifenedig);
- Gwrthwynebiadau i gyfansoddiad etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr (a gwrthgynigion ar ei chyfer), yn enwedig creu rhaniad rhwng wardiau Sgeti ac Uplands yn ogystal ag ardal Casllwchwr / Gorseinon / Pontarddulais, a amlygwyd gan gyflwyniad Llafur Cymru a llawer o rai eraill; a
- Gwrthwynebiadau niferus i uno Dwyrain Abertawe â Chastell-nedd, yn enwedig gan ward etholiadol Llansamlet, a bwysleisiwyd mewn gwrandawriad cyhoeddus. Roedd dadleuon cryf bod y gymuned hon yn wynebu Abertawe, nid Castell-nedd, o ran cysylltiadau hanesyddol, economaidd a thrafnidiaeth.

51. Cytunwn â'r safbwyntiau hyn ac felly rydym yn gwyrho'n sylweddol oddi wrth y Cynigion Cychwynnol, dan ddylanwad dau brif wrthgynnig – gan Lafur Cymru a Phlaid Cymru (mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ac nid ydym yn cefnogi cynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

52. Rydym yn ffafrio trefniant hybrid o fath, sy'n cyd-fynd â chynrychiolaethau Llafur Cymru, i raddau, o ran cyfansoddiad etholaethau; ond sy'n cynnwys dyluniad dwyrain/gorllewin i'r gogledd o Ddinas Abertawe (ar hyd traffordd yr M4 i bob pwrpas), fel y cynigir gan Blaid Cymru.

53. Nid yw ein dyluniad heb gysail, gan fod y model yn debyg iawn i ardal o hen Gyngor Bwrdeistref Dosbarth Dyffryn Lliw a fodolai o 1974 tan 1996. Mae rhan orllewinol yr etholaeth arfaethedig wedi'i chynnwys o fewn etholaeth bresennol Gŵyr ac mae'r rhan ddwyreiniol o fewn etholaeth bresennol Castell-nedd. I'r perwyl hwnnw, credwn y byddai **Dyffryn Lliw/Lliw Valley** yn enw priodol ar gyfer etholaeth o'r fath.

54. Mae ein newidiadau arfaethedig i etholaeth **Gorllewin Abertawe a Gŵyr/Swansea West and Gower**<sup>6</sup> yn eithaf lleiafysmiol, mewn gwirionedd, gan adlewyrchu rhai o'r cynrychiolaethau a wnaed. Byddai wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol yn cael eu dileu, a ward etholiadol Uplands yn cael ei hychwanegu – gan ei huno â ward Sgeti yn yr un etholaeth. Ond, fel arall, mae'r un fath â'r Cynigion Cychwynnol.

55. Er ein bod yn anghytuno y dylai **Dwyrain Abertawe/Swansea East** ymuno â Chastell-nedd, dylai ein cynnig fod yn adnabyddadwy. Yr etholaeth bresennol ydyw, yn y bôn, gyda rhai addasiadau e.e. wardiau etholiadol Y Castell a Townhill wedi'u cynnwys.

56. Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi'u llywio gan ein dull o geisio datrys materion yn lleol lle y bo'n bosibl. Esboniwn ein sail resymegol yn fanylach isod mewn perthynas â rhannau eraill o Gymru.

## ARDAL CASTELL-NEDD, ABERAFAN A PHEN-Y-BONT AR OGWR

57. O ganlyniad i'r awgrymiadau uchod ar gyfer Abertawe, nid ydym yn ffafrio'r Cynigion Cychwynnol na dewis amgen Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer yr ardal hon. Fodd bynnag, cawsom drafferth fawr osgoi rhaniad mympwyol

<sup>6</sup> Gwnaethom nodi sawl cynrychiolaeth ynglŷn ag enw'r etholaeth hon – yn ei hanfod, i roi "Gŵyr" yn gyntaf yn seiliedig ar yr honiad bod mwyafrif yr etholwyr yn byw yn etholaeth bresennol Gŵyr. Fodd bynnag, mae hyn yn ddadleuol yn dibynnu ar ble y tynnir y "ffin" rhwng rhannau trefol a gwledig yr etholaeth, ac rydym yn cynnig dileu wardiau o etholaeth bresennol Gŵyr sut bynnag. At ei gilydd, felly, byddem yn cadw'r enw fel y'i nodir yn y Cynigion Cychwynnol.

rhwng etholaethau (mae ein cynnig ni'n gwahanu Cwm Nedd Uchaf - wardiau etholiadol Glyn-nedd a Blaen-gwrach - oddi wrth y dref). Mae hyn yn llai na delfrydol; ond yn angenrheidiol i fodloni blaenoriaethau eraill, yn ein barn ni, sef:

- Bodloni'r amrediad etholiadol statudol trwy gynnwys Cymoedd Tawe ac Aman Uchaf yn y ffordd y disgrifiwn uchod (mewn geiriau eraill, ôl-effaith rifyddol cynnwys ardal Castell-nedd); a
- Darparu dewis amgen yn lle etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl, nad ydym yn ei chefnogi (a wrthwynebir hefyd gan Blaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, er y'i cymeradwywyd gan yr Aelodau Seneddol dros Aberafan ac Ogwr gyda rhai addasiadau yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr e.e. ward etholiadol Cefn Cribwr).

Mae'r cynigion uchod yn golygu bod angen dyluniad gwahanol sut bynnag, ac roedd Aberafan Porthcawl hefyd yn destun cryn wrthwynebiad o ddwy ran yr etholaeth arfaethedig yn seiliedig ar gysylltiadau lleol, yn y bôn.

58. Felly, cynigiwn etholaeth wedi'i ffurfio o dref Castell-nedd, rhan fawr o etholaeth bresennol Aberafan a wardiau etholiadol Dwyrain a Gorllewin Maesteg yn ogystal â Cherau o ardal weinyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cysylltiadau trafnidiaeth, cymunedol a chysylltiadau eraill cymharol gryf rhwng Cwm Afan a Maesteg; ond llawer llai felly â'r ardal ehangach yn etholaeth bresennol Ogwr.

59. Felly, er y cytunwn â syniad sylfaenol y gwrthgynnig gan Geidwadwyr Cymru yn seiliedig ar gysylltiadau lleol a ffactorau economaidd-gymdeithasol (sy'n awgrymu bod Maesteg yn cyd-fynd yn well ag Aberafan), cynigiwn fod yr etholaeth yn tresmasu'n fwy cyfyngedig ar ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

60. Byddem yn rhoi'r enw **Castell-nedd, Aberafan a Maesteg/Neath, Aberavon and Maesteg** i'r etholaeth.

61. Er y nodwn sylwadau'r Aelodau Seneddol dros Ben-y-bont ar Ogwr ac Ogwr (ac eraill), cytunwn yn y bôn â'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer **Pen-y-bont ar Ogwr/Bridgend**. Fodd bynnag, os dilëir ardal Maesteg, cynigiwn ychwanegu wardiau etholiadol y Pil a Chorneli i gynnal yr amrediad etholiadol statudol – mae'r ddwy o fewn ardal weinyddol y Cyngor.

62. Yn ogystal, mae ein cynigion yn mynd i'r afael yn rhannol â gwrthwynebiadau i rannu tref Pen-y-bont ar Ogwr – er enghraifft o ran ward etholiadol Cefn Glas; ond nid Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (sy'n cynnwys gormod o etholwyr i allu eu trosglwyddo'n rhwydd). Dychwelwn i Borthcawl a'i hardal amgylchynol isod.

## BRO MORGANNWG A PHORTHCAWL

63. Cydnabyddwn ymlyniad sylfaenol ag etholaeth bresennol Bro Morgannwg (roedd tair o'r pedair plaid wleidyddol gymwys yn ei chefnogi); ond yn amgylchiadau cyffredinol yr amrediad etholiadol statudol a ffactorau eraill, nid ydym o'r farn bod y dadleuon hyn yn dyngedfennol am dri phrif reswm:

- Mae uchafiaeth yr amrediad etholiadol statudol a'r rhifydddeg (nifer yr etholwyr) yn y wardiau etholiadol yn golygu bod rhaid gwneud newid yn rhywle yn yr ardal e.e. fel y gwelir yn y Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â Dinas Powys, a oedd yn destun nifer o wrthwynebiadau. Nid ydym ychwaith yn credu bod y ddadl mai'r etholaeth bresennol yw'r unig un yng Nghymru sydd o fewn yr amrediad ar hyn o bryd yn arbennig o gymhellol ar ei phen ei hun;
- Nid yw ardal weinyddol yr awdurdod lleol a'r etholaeth bresennol yn gydffiniol eisoes. Mae'r cyntaf yn cynnwys tref Penarth; ond nid yw'r olaf. At hynny, mae'n ymddangos i ni fod rhai dadleuon nad oes gan yr ardal gysylltiadau agos â Chaerdydd wedi'u gorbwysleisio braidd; ac
- Yn fwyaf arwyddocaol, credwn fod cadw'r etholaeth bresennol yn ei chyfanrwydd neu i raddau helaeth iawn yn arwain at ganlyniadau anfodddhaol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – mewn perthynas â hwylyso ein dewisiadau amgen i etholaeth Aberafan Porthcawl (ac eraill ymhellach i'r gorllewin) ac yn arbennig ar ochr orllewinol Caerdydd – a chyfansoddiad yr etholaethau yn y ddinas honno.

64. Dychwelwn i faterion Caerdydd isod; ond i fynd i'r afael â nhw'n gydlynol, mae angen etholaeth o ddyluniad gwahanol yma yn gyntaf. Er bod y model hwn yn amherffaith yn ddi-au ym marn rhai, mae'n gydlynol o ran y ffactorau statudol ac yn lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf mewn mannau eraill, yn ein barn ni. Mae'n debyg iawn i hwnnw a gynigiwyd gan Blaid Cymru.

65. Felly, cynigiwn y dylai Porthcawl a'r ardal amgylchynol uno â rhan fawr o etholaeth bresennol Bro Morgannwg (a gefnogir gan gynrychiolaethau o ardal Porthcawl); ond gan eithrio'r Barri a rhai wardiau etholiadol cyfagos tuag at ffin yr awdurdod lleol â Chaerdydd. Byddem yn rhoi'r enw **Bro Morgannwg a Phorthcawl/Vale of Glamorgan and Porthcawl** i'r etholaeth.

66. Rhestrir y manylion llawn yn Atodiad 1; ond, i grynhoi, mae'r newidiadau fel a ganlyn. Byddai wardiau etholiadol **Baruc, Butrills, Cadog, Castleland a Court** yn cael eu dileu; ond byddai **Dinas Powys** yn dychwelyd i etholaeth Bro Morgannwg a byddai ardal Porthcawl yn cael ei hychwanegu (o **Rest Bay** a **Notais** yn y gorllewin o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr).

## ARDAL CAERDYDD

67. Mae'n dilyn o'r uchod bod angen addasiadau yn yr etholaethau o fewn ardal weinyddol Dinas a Sir Caerdydd. Roedd y dystiolaeth gan yr Aelodau Seneddol dan sylw yn ffafrio'r ffiniau presennol a'r Cynigion Cychwynnol (mewn tystiolaeth lafar a/neu ysgrifenedig); ond credwn fod ein newidiadau arfaethedig yn ddymunol (yn enwedig o ran etholaeth Gorllewin Caerdydd ac undod cymunedau yn nwyrain y ddinas) neu o leiaf yn niwtral – ac yn angenrheidiol i fodloni'r amrediad etholiadol statudol.

68. Byddai etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth yn symud tua'r gorllewin. Byddai'n cynnwys ardal y Barri a restrir uchod yn ogystal â chadw cymunedau o Sili i Benarth o fewn ardal weinyddol Cyngor Bro Morgannwg. Byddai craidd de Caerdydd – cymunedau Grangetown a Butetown – yn cael eu cadw yn yr etholaeth hon hefyd gan ddiogelu cysylltiadau lleol; ond mae angen addasiadau ychwanegol yn nwyrain yr etholaeth. Byddai ward etholiadol **Adamsdown** yn cael ei hychwanegu; ond byddai **Y Sblot a Trowbridge** yn cael ei dileu.

69. Cynigiwn ei galw'n **Y Barri, De Caerdydd a Phenarth/Barry, Cardiff South and Penarth**. Mae'n newid sylweddol; ond efallai nid mor radicalaidd ag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf o ystyried bod yr etholaeth bresennol yn cynnwys cymunedau gwahanol iawn ac yn croesi'r ffin awdurdod lleol rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd. Mae hefyd yn mynd i'r afael â gwrthwynebiadau gan gynrychiolwyr etholedig a phreswylwyr **Dinas Powys**.

70. Unwaith eto, mae'n dilyn bod angen addasiadau canlyniadol ychwanegol mewn etholaethau cyfagos i fodloni'r amrediad etholiadol statudol. Felly, ar ôl ychwanegu wardiau at y Barri, Penarth a De Caerdydd neu dynnu wardiau oddi wrthi, byddai sefyllfa ddrych-ddelwedd yn berthnasol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd.

71. Yn ogystal, cynigir newidiadau eraill i fodloni'r amrediad etholiadol statudol yma; ond hefyd i ddatrys rhai gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r Cynigion Cychwynnol (lle'r ydym yn cytuno) yn ogystal ag osgoi'r dewisiadau amgen llai deniadol a gyflwynwyd. Fodd bynnag, gan fod y materion hyn yn fwy perthnasol i etholaethau Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd, dychwelwn iddynt isod.

72. O ran Canol Caerdydd, y canlyniad net (yn ychwanegol at yr addasiadau yn y de a restrir uchod) yw ein bod yn cynnig dileu wardiau etholiadol **Cyncoed** a **Phentwyn**; ond ychwanegu **Gabalfa**. Mae'r tair yn symud i/o Ogledd Caerdydd.

73. Credwn y byddai'r enw **Canol a Dwyrain Caerdydd/Cardiff Central and East** yn adlewyrchu cyfansoddiad yr etholaeth arfaethedig a'r cysylltiadau lleol yn yr etholaeth yn well oherwydd byddai **Sblot, Trowbridge, Rhymni a Llanrhymni** i gyd wedi'u cynnwys. Dyna oedd byrdwn dadl Ceidwadwyr Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (o ran cyfansoddiad etholaeth De Caerdydd), cynrychiolaethau eraill ac mae hefyd yn mynd i'r afael â'r pwynt a godwyd gan Geidwadwyr Cymru ynglŷn â chysylltiadau tir. Fodd bynnag, nid ydym yn cefnogi eu cynnig i rannu'r ardal trwy gynnwys ward etholiadol **Llanrhymni**



yn etholaeth Gogledd Caerdydd.

74. Yn fras, byddai ffin hefyd rhwng yr etholaeth hon a Gogledd Caerdydd ar ffurf ffordd yr A48 Rhodfa'r Dwyrain (a Llanrhymni i'r de ohoni). At hynny, perchir y ffin rhwng dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd.

75. Gan ystyried **Gogledd Caerdydd/Cardiff North**, mae'r prif newidiadau o'r Cynigion Cychwynnol eisoes wedi cael eu rhestru uchod ym mharagraff 71. Credwn fod y cynigion hyn yn cynhyrchu darlun cyfan cydlynol yn yr ardal honno o'r brifddinas o ran hunaniaeth gymunedol a chysylltiadau lleol; ond cydnabyddwn fod safbwyntiau croes (e.e. rhannu cymunedau Gogledd Llandaf a Gabalfa rhwng etholaethau gwahanol).

76. Fodd bynnag, mae'r model hwn yn caniatáu ar gyfer bodloni gwrthwynebiadau eraill, e.e. nifer – gan gynnwys gan Geidwadwyr Cymru a Phlaid Lafur Etholaeth Pontypridd – yn ymwneud â ward etholiadol Ffynnon Taf, ac yn cael gwared â dewisiadau amgen posibl (fel ymestyn yr etholaeth i Gaerffili) yr ydym yn eu hosgoi.

77. Yn olaf, yng nghyd-destun Caerdydd, mae'r argymhellion hyn yn caniatáu ar gyfer addasiadau yn etholaeth **Gorllewin Caerdydd/Cardiff West**.

78. Y pwynt sylfaenol yw ein bod yn cefnogi'n gryf y gwrthwynebiadau niferus a dderbyniwyd gan gymuned Pont-y-clun. Mae'r cysylltiadau rhwng y gymuned hon a gweddill yr etholaeth bresennol yn denau ar y gorau – a hynny'n fwy o lawer, yn ein barn ni, nag ardaloedd eraill a drafodwyd uchod y gwnaed gwrthwynebiadau cryf ynglŷn â nhw ac o ran amryw wardiau cyfagos o fewn Dinas a Sir Caerdydd (gweler isod) a allai fod mewn etholaethau gwahanol o bosibl.

79. Felly, credwn fod cynnwys Pont-y-clun yn etholaeth Gorllewin Caerdydd yn bodloni ychydig yn unig, os unrhyw rai, o'r ffactorau statudol. Cynigiwn fod y gymuned yn cyd-fynd yn well o lawer ag etholaeth Pontypridd – gweler isod hefyd.

80. Byddai hyn hefyd yn golygu bod angen gwneud newidiadau i ffiniau etholaethau cyfagos Caerdydd i fodloni'r amrediad etholiadol statudol. Mewn cyd-destun gwahanol, cynigiodd y pleidiau gwleidyddol cymwys sawl un (e.e. Ceidwadwyr Cymru o ran Llandaf a Gogledd Llandaf, a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o ran Gabalfa a'r Mynydd Bychan).

81. Yn ogystal, derbyniwyd nifer o gynrychiolaethau yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu cynnig gan Geidwadwyr Cymru i drosglwyddo ward etholiadol Glanrafon i etholaeth Canol Caerdydd. Fe'u nodwn; ond ni chynigiwn unrhyw newidiadau yn hyn o beth.

82. Mae'r dadleuon amrywiol hyn – a'r rhai sy'n cynnig y sefyllfa bresennol – yn rhesymol; ond nid oes consensws. Fodd bynnag, deawn i'r casgliad ei bod yn fwy priodol mynd i'r afael â materion o fewn ardal weinyddol yr awdurdod lleol, yn hytrach nag ymestyn etholaeth Gorllewin Caerdydd y tu hwnt i derfynau'r ddinas, fel y cynigiwyd gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac eraill. Byddai hyn ond yn gwaethygu'r problemau, yn ein barn ni. Cydnabyddwn fod y cynigion hyn, o'u hystyried yn eu cyfanrwydd, yn gwyro oddi wrth y trefniadau presennol, ond mae hyn yn amgenach nag ychwanegu cymunedau fel Pont-y-clun, Dinas Powys a Ffynnon Taf yn syml i gael y niferoedd iawn. Mae'n decach, yn ein barn ni. Lle y bo'n bosibl, credwn dylai materion gael eu datrys lle maen nhw'n codi, nid eu dadleoli i fan arall – egwyddor agosrwydd o ryw fath.

## CYMOEDD MORGANNWG

83. Deuwn i'r casgliad fod y Cynigion Cychwynnol, i raddau helaeth iawn, yn cynrychioli'r datrysiad gorau ar gyfer yr ardal hon.

84. Archwiliom ddewisiadau amgen posibl (e.e. etholaeth "Blaenau'r Cymoedd" yn mynd o'r dwyrain/gorllewin); ond canfuom eu bod yn ddiffygiol o ran naill ai'r amrediad etholiadol statudol, y ffactorau statudol eraill neu'r ddau. Yn arbennig, rydym yn gofalu peidio â chroesi prif Gymoedd (sy'n mynd o'r gogledd/de) lle y bo'n bosibl, gan y byddai hyn yn groes i'r maes prawf cysylltiadau lleol yn benodol.



85. Yn unol â hynny, rydym yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth **Rhondda** yn eu cyfanrwydd ac felly nid ydym yn cefnogi cynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i gyfuno'r etholaeth ag Ogwr. Mae'r ddwy gymuned hyn yn wahanol iawn.

86. Rydym hefyd yn cefnogi cyfansoddiad sylfaenol etholaethau arfaethedig Pontypridd a Merthyr ac Aberdâr; ond roeddem yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwrthwynebiadau lleol ar lefel ward – yn benodol Cwm Cynon a chymuned Nelson – ar ôl ystyried yn gyntaf effaith ein cynnig i gadw wardiau etholiadol Pont-y-clun a Ffynnon Taf yn etholaeth Pontypridd (o Orllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, yn y drefn honno).

87. I grynhoi, cyflawnwn ddatrysiaid rhannol, efallai. O dan ein cynigion ni, byddai cymuned Nelson yn aros o fewn etholaeth Caerffili – gweler isod – a byddai wardiau etholiadol De a Gogledd Aberaman yn trosglwyddo o etholaeth Pontypridd i etholaeth **Merthyr ac Aberdâr/Merthyr and Aberdare**. Cefnogwyd newid Aberaman gan Geidwadwyr Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru yn ogystal â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd.

88. Yn ddelfrydol, byddai'n well gennym drin wardiau etholiadol Dwyrain a Gorllewin Aberpennar mewn ffordd debyg gan fod llawer o bobl yn gwrthwynebu eu cynnwys yn etholaeth Pontypridd hefyd (er efallai nid i'r un graddau â wardiau Aberaman). Fodd bynnag, byddai'r amrediad etholiadol statudol yn cael ei danseilio oni bai bod newidiadau ychwanegol yn cael eu gweithredu, ac ni chanfuom unrhyw rai a oedd yn gwella'r sefyllfa gyffredinol. Yn y pen draw, felly, fe'n trechwyd gan y rhifydddeg yn yr ardal hon.

89. O ran Cwm Cynon yn ei gyfanrwydd, ystyriom y pwyntiau a wnaed gan yr Aelod Seneddol a gwrthgynnig manwl ar wahân<sup>7</sup>; ond canfuom fod yr amryw opsiynau a amlinellwyd yn yr olaf yn ddiffygiol. Roeddent yn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol a negyddol i sawl etholaeth arall gyfagos, cymunedau lleol (e.e. Treharris) a/neu nid oeddent yn bodloni'r amrediad etholiadol statudol mewn un achos – a oedd yn golygu bod rhaid i ni ei wrthod.

90. Y pwynt arall yw ein bod yn argymhell rhoi'r enw **Pontypridd a Llantrisant/Pontypridd and Llantrisant** i'r etholaeth, sy'n adlewyrchu ei chyfansoddiad yn well, yn ein barn ni.

## ARDAL GWENT

91. Mae dau ffactor tyngedfennol a chysylltiedig yn ein ffordd o feddwl fan hyn:

- Yn gyntaf, credwn fod y Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr ardal yn gywir i raddau helaeth iawn – ond gydag un eithriad mawr, sef Caerffili a'i heffaith ar Orllewin Casnewydd ac Islwyn; ac
- Yn ail, wrth lunio dewis amgen yma, ceisiom ddileu unrhyw ôl-effeithiau ar weddill yr ardal. Y rheswm am hyn yw oherwydd ein bod yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol yn llwyr o ran etholaethau **Blaenau Gwent a Rhymni/Blaenau Gwent and Rhymney, Dwyrain Casnewydd/Newport East, Mynwy/Monmouthshire ac etholaeth Torfaen**, ac nid ydym eisieu eu peryglu. Heblaw am Blaid Cymru, mae'r pleidiau gwleidyddol cymwys yn rhannu'r farn hon.

92. Mae cytundeb (trawsbleidiol) hefyd rhwng yr Aelodau Seneddol dros Fynwy a Thorfaen – gan gynnwys trosglwyddo pedair ward etholiadol o'r cyntaf i'r olaf – a rhwng yr Aelodau Seneddol dros Fynwy a Dwyrain Casnewydd ynglŷn â'r ffiniau perthnasol yno. Cefnogwyd y Cynigion Cychwynnol hefyd gan y pedwar grŵp gwleidyddol yng Nghyngor Sir Fynwy, yr Aelod Seneddol dros Fynwy, yr Aelod Seneddol dros Flaenau Gwent ac eraill.

93. Er yr archwiliom amryw ddewisiadau amgen, gan gynnwys cynigion Plaid Cymru ar gyfer yr ardal, deuw'n i'r casgliad pendant fod y Cynigion Cychwynnol yn amgenach yn seiliedig ar gysylltiadau lleol, ffurfweddiad y rhwydwaith ffyrdd a ffactorau statudol eraill. Dychwelwn i'r mater hwn isod mewn perthynas ag etholaeth bresennol Brycheiniog a Maesyfed.

94. O ran Caerffili, derbyniwn y dadleuon cymhellol o blaid cadw etholaeth yn seiliedig ar y cysylltiadau lleol

rhwng y dref a'r ardal amgylchynol yn ogystal â'r ddadl gref ynglŷn â thrafnidiaeth a chysylltiadau eraill â Chaerdydd (nid Casnewydd). Cyflwynwyd dadleuon angerddol, rhesymegol a thrawsbleidiol yn seiliedig ar gysylltiadau cymunedol a ffactorau eraill yn y gwrandawiadau cyhoeddus hefyd.

95. Nodwn ryw faint o gefnogaeth i'r Cynigion Cychwynnol (gan gynnwys gan Geidwadwyr Cymru); ond roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd yn eu gwrthwynebu i raddau helaeth, gan gynnwys gan Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bryd hynny.

96. Cafwyd cynrychiolaethau gan rai Aelodau Seneddol yn yr ardal ehangach a oedd yn argymhell cadw'r sefyllfa bresennol neu fân wyriadau oddi wrthi; ond, o'u cyfyngu i etholaeth unigol, mae'r rhain yn nacáu'r naill a'r llall, i bob pwrpas, yng nghyd-destun yr amrediad etholiadol statudol ac ystyriaethau ehangach. Er enghraifft, nid yw'r gwrthgynnig gan yr Aelod Seneddol ac Aelod y Senedd dros Orllewin Casnewydd yn cael ei gefnogi gan eu cymheiriaid yn Islwyn. Yn yr un modd, nid yw'r cynigion gan Islwyn a Chaerffili yn cyd-fynd.

97. Deuwn i'r casgliad fod Islwyn yn rhan fwy uniongyrchol o gyffiniau Casnewydd na Chaerffili, yn enwedig o ran y cysylltiadau rheilffyrdd a amlygwyd uchod a rhwydwaith ffyrdd sydd wedi'i seilio ar yr A467 – nid yr A468.

98. Felly, cynigiwn ddwy etholaeth wahanol: **Caerffili/Caerphilly a Gorllewin Casnewydd ac Islwyn/Newport West and Islwyn** – byddai'r cyntaf hefyd yn cynnwys cymuned Nelson (gweler uchod).

99. Rhestrir rhaniad y wardiau rhwng y ddwy etholaeth yn Atodiad 1. Nid yw'n union yr un fath â'r rhai hynny sy'n dadlau dros gadw Caerffili (gan gynnwys yr Aelod Seneddol) neu Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a gyflwynodd gynnig ynglŷn â Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.

100. Ond gan gytuno â'r sail resymegol, mae ein hargymhellion yn debyg iawn ac, unwaith eto, mae'n rhaid bodloni'r amrediad etholiadol statudol hollbresennol. Dymunwn hefyd fynd i'r afael â lleoliad ward etholiadol Nelson, fel y nodwyd uchod.

## Y CANOLBARTH A'R GOGLEDD-ORLLEWIN

101. Fel y disgrifiwyd uchod, mae triniaeth etholaeth bresennol Brycheiniog a Maesyfed yn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol i fannau eraill a thros gryn bellter o ystyried teneurwydd etholwyr yn yr ardal.

102. Rydym eisoes wedi esbonio ein hamheuron difrifol ynglŷn â chynnwys Cymoedd Tawe ac Aman Uchaf yn yr etholaeth hon. Mae'r cymunedau hyn yn bell iawn oddi wrth Lanandras, Rhaeadr a Llandrindod, ac ychydig os unrhyw beth sydd ganddynt yn gyffredin â nhw. Mae'r ddadl a gyflwynwyd gan Geidwadwyr Cymru bod y Cymoedd hyn gerllaw Ystradgynlais yn wir; ond nid yw'n ddarbywyllog ar ei phen ei hun ac mae'r farn yn yr ardaloedd dan sylw yn sylweddol drech na hi. Os unrhyw beth, efallai bod achos cryfach yn seiliedig ar gysylltiadau lleol dros gynnwys Ystradgynlais a'r ardal amgylchynol o dde-orllewin Powys o fewn etholaeth i'r de; ond nid yw rhifydddeg yr amrediad etholiadol statudol yn caniatáu hynny.

103. Maeystyriaethau tebyg yn berthnasol i gynnig Plaid Cymru i gynnwys ardal y Fenni o fewn etholaeth Brycheiniog a Maesyfed. Canfuom fod hyn yr un mor anneniadol. Byddai'n arwain at ganlyniadau dybryd i Sir Fynwy a chydlynid ardal ehangach Gwent. Yn yr un modd â Chaerdydd/Bro Morgannwg a rhannau o ardal Abertawe, credwn y byddai'n decach o lawer ystyried datrysiadau o fewn yr ardal uniongyrchol yn gyntaf, lle y bo'n bosibl, yn hytrach nag edrych i fan arall i gael y niferoedd iawn yn unig, i bob pwrpas.

104. Llywiwyd ein ffordd o feddwl hefyd gan batrymau teithio, cysylltiadau lleol, cyfansoddiad y gymuned fusnes a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal – yn enwedig y gwirionedd bod etholwyr mewn ardaloedd ar y ffin (gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr) yn croesi'r ffiniau hynny'n ddyddiol i gael gwasanaethau iechyd ac addysg yn benodol.

105. Fel y nodwyd uchod, archwiliom nifer o ddewisiadau amgen ar gyfer Brycheiniog a Maesyfed (gan gynnwys dileu'r etholaeth); ond nid oeddent yn gweithio am un rheswm neu'i gilydd. Y ffactor cyffredin, unwaith eto, oedd yr amrediad etholiadol statudol a'r ffaith bod effeithiau negyddol mewn mannau eraill yn cael eu cynyddu, nid eu lleihau.

106. Felly, yn y dadansoddiad terfynol, cynigiwn ymestyn etholaeth Brycheiniog a Maesyfed i'r gogledd – nid i'r de – i gynnwys wardiau etholiadol yn ne etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ffurfio'r Drenwydd. Mae'r ardal gyfan hon o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Powys a chynigiwyd y model gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Cytunwn â'r sail resymegol. Gwnaeth y blaid ddadleuon manwl hefyd ynglŷn â chysylltiadau trafnidiaeth ac addysg i gefnogi ei hachos mewn gwrandawriad cyhoeddus. Rhoddir manylion y wardiau yn Atodiad 1 unwaith eto.

107. Yn ein barn ni, mae hyn yn ymdrin â'r ffactorau statudol yn well o lawer o gymharu â'r Cynigion Cychwynnol a dewisiadau amgen eraill. Cynigiwn hefyd rhoi'r enw **Canol a De Powys/Mid and South Powys** i'r etholaeth gan na fyddai'r enw presennol yn adlewyrchu'r etholaeth yn gywir.

108. Yn amlwg, mae'r cynigion hyn yn golygu bod etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn yn fyr iawn o leiafswm yr amrediad etholiadol gofynnol.

109. Cydnabyddwn gynrychiolaethau cryf (yn ysgrifenedig ac ar lafar) sy'n dadlau dros gadw etholaeth Sir Drefaldwyn am resymau diwylliannol a hanesyddol, i bob pwrpas; ond nid ydym o'r farn eu bod yn dyngedfennol. Yn yr un modd â Brycheiniog a Maesyfed, credwn fod hyn yn creu gormod o ganlyniadau negyddol mewn mannau eraill.

110. Yn ogystal, byddem yn gwneud tri sylw arall yn hyn o beth:

- Yn gyntaf, nid yw cadw sir hanesyddol Drefaldwyn yn ddewis ymarferol mewn gwirionedd, yn anffodus. Mae'r etholaeth bresennol yn cynnwys llai na 50,000 o etholwyr (sy'n fyr o lawer o'r lleiafswm statudol a chydymffurfio â gofyniad sylfaenol y Ddeddf) ac felly mae etholaeth Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn y Cynigion Cychwynnol eisoes yn cynnwys mwy na 30% o'i hetholwyr o fannau eraill;
- Yn ail, er bod cefnogaeth gref yn y sir dros gynnwys ardal a ddisgrifiwyd fel Glyndŵr, De Clwyd neu amrywiaeth o wahanol wardiau etholiadol, nid yw'r farn hon yn cael ei rhannu gan nifer sylweddol o sylwadau o'r ardaloedd dan sylw; ac
- Yn drydydd, gellid dychmygu petai'r dadleuon a wnaed o blaid Sir Drefaldwyn yn cael eu hystyried mor gymhellol ag amryw gyflwyniadau a ddarllenom ac a glywsom, yna fe allai'r Senedd fod wedi rhoi statws gwarchodedig iddi. Ond ni roddwyd statws o'r fath iddi.

111. Yn y bôn, mae hyn i gyd yn cyflwyno dau opsiwn ar gyfer unioni'r sefyllfa. Gallai Sir Drefaldwyn naill ai gael ei hymestyn ymhellach i'r gogledd, yn unol â'r Cynigion Cychwynnol, gyda rhai addasiadau ychwanegol angenrheidiol **neu** fe allai gynnwys rhan sylweddol o ardal Meirionnydd.

112. Mater o farn ydyw; ond rydym yn cymhwyso'r ffactorau statudol ac yn penderfynu o blaid yr olaf – uno gweddill yr etholaeth ag ardal o Feirionnydd cyn belled i'r gogledd-orllewin â Harlech i ffurfio etholaeth gydlynol yn ei rhinwedd ei hun, gan fodloni'r ffactorau statudol i'r graddau mwyaf sy'n bosibl mewn ardal wledig fawr<sup>8</sup>. Ni welwn unrhyw reswm sylfaenol pam na ddylai etholaeth ymestyn o ffin Lloegr i'r arfordir os yw ei dyluniad yn bodloni'r meini prawf statudol. Unwaith eto, mae ymhell o fewn yr ardal fwyaf a ganiateir.

113. Mae'r cynnig hwn yn amodol ar y penbleth sylfaenol yn yr ardal ehangach: nid oes digon o etholwyr, yn syml, i fodloni'r gwrthwynebiadau cryf a dderbyniwyd a'r amrediad etholiadol statudol heb dresmasu'n sylweddol ar ddwy o leiaf o etholaethau Dwyfor Meirionnydd, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr ac Aberconwy, fel yr amlinellir yn y Cynigion Cychwynnol. O ran y ddwy olaf a enwyd, roedd y farn yn amrywio sut bynnag am eu cyfansoddiad o nifer o wahanol safbwyntiau.

114. Cynigiwn rhoi'r enw **Maldwyn a Meirionnydd/ Montgomeryshire and Meirionnydd** i'r etholaeth.

---

8 Hyd yn oed gan gyfrif am ffactorau fel daearyddiaeth cadwyn Berwyn.

115. Gan gyfrif am drosglwyddo ardal Meirionnydd (gweler uchod), rydym bellach yn argymhell creu etholaeth wedi'i seilio ar benrhyn Llŷn, ardaloedd Caernarfon/Bangor ac ymestyn i'r hyn sy'n etholaeth Aberconwy yn y Cynigion Cychwynnol.

116. Credwn fod tair prif fantais i hyn:

- Yn gyntaf, yn ein barn ni, mae'n caniatáu ar gyfer creu etholaeth yng Ngogledd-orllewin Cymru sy'n gwneud y mwyaf o hunaniaeth ddiwylliannol a nodweddion iaith Gymraeg yr ardal. Ystyriwn fod hyn yn flaenoriaeth drosfwaol; ond mae'r opsiynau yn yr ardal wedi'u cyfyngu gan y statws gwarchodedig a roddir i Ynys Môn. Cefnogwyd y cysyniad – sy'n debyg i'n cysyniad ni – gan Blaid Cymru.

Mae ein cynigion hefyd yn datrys y gwrthwynebiad cryf i'r Cynigion Cychwynnol ynglŷn â rhannu Dinas Bangor – efallai'n arbennig mewn perthynas â chymunedau Pentir a Phenrhosgarnedd a chynnwys Bethesda (Ogwen) yn etholaeth Aberconwy. Roedd nifer sylweddol iawn o wrthwynebiadau i'r ddau<sup>9</sup> a chytunwn eu bod yn cynrychioli anfanteision sylweddol trwy greu rhaniadau o'r fath;

- Yn ail, gallai'r dewisiadau amgen greu gormod o ffiniau afreolaidd neu fympwyol o safbwynt cymuned leol yng nghyffiniau arfordir Gogledd Cymru – er y cydnabyddwn nad yw ein cynigion ni'n dileu'r mater hwn yn llwyr (gweler isod mewn perthynas â Rhiwabon a'r Waun yn arbennig); ac

- Yn drydydd, mae opsiynau cyfyngedig i fodloni'r amrediad etholiadol statudol yn gydlynol o ystyried (yn nhermau cymharol) teneurwydd y boblogaeth yng ngorllewin Gogledd Cymru a'i dwysedd ymhellach i'r dwyrain. Ond mae'r opsiwn a ffefrir gennym o leiaf yn fwy ffafriol i fodloni ei uchafiaeth yn gyffredinol.

117. Cynigiwn rhoi'r enw **Menai** i'r etholaeth.

## ARFORDIR Y GOGLEDD A'R CYFFINIAU

118. Effaith net Menai yw mynnu bod ffiniau etholaethau ar hyd yr arfordir yn symud i'r dwyrain (ac i'r de i raddau llai) i fodloni'r amrediad etholiadol statudol.

119. Mae dau opsiwn dylunio sylfaenol ar gyfer yr ardal: Gogledd/De i gysylltu trefi arfordirol â'u cyffiniau neu Ddwyrain/Gorllewin (ar hyd yr A55), fel y cynigiwyd gan Blaid Cymru, er enghraifft. Roedd amrywiaeth barn unwaith eto; ond ar sail y ffactorau statudol – yn enwedig cysylltiadau lleol – ffafriwn y cyntaf.

120. Mae ein newidiadau arfaethedig yn sylweddol (yn enwedig o ran Aberconwy, ond efallai i raddau llai o ran Delyn); ond maen nhw'n gyson â llawer o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Rhoddir manylion llawn ar lefel ward yn Atodiad 1; ond i grynhoi, byddai Aberconwy<sup>10</sup> a Chlwyd yn cael eu disodli gan yr etholaethau:

- **Conwy a Gorllewin Clwyd/Conwy and Clwyd West** (sy'n cynnwys ardaloedd fel Conwy, ardal Llandudno, Colwyn, Deganwy a Llandrillo yn Rhos); a

- **Dinbych a De Clwyd/Denbigh and Clwyd South** (sy'n cynnwys ardaloedd fel Dinbych, Bae Cinnel, Llanelwy, y Rhyl, Corwen a Llangollen). Felly, byddai'n cynnwys ardal sylweddol o etholaethau presennol Gorllewin Clwyd, De Clwyd a Dyffryn Clwyd.

121. Mae etholaeth Delyn yn aros ac yn cadw Prestatyn a chyffiniau'r dref. Fodd bynnag, dadleuodd sawl cynrychiolaeth o blaid rhoi'r enw **Dwyrain Clwyd/Clwyd East** i'r etholaeth. Cytunwn â hynny.

122. Nid yw'r trynewidiadau hyn yn bodloni'r holl wrthwynebiadau i'r Cynigion Cychwynnol ar draws yr ardal ehangach; ond efallai eu bod yn bodloni'r rhan fwyaf o'r cynrychiolaethau sy'n codi droeon, gan gynnwys:

<sup>9</sup> Gan gynnwys gan Gynghorydd lleol mewn gwrandawriad cyhoeddus ynglŷn â Dinas Bangor a'r wardiau etholiadol yr effeithir arnynt.

<sup>10</sup> Nodwn hefyd sawl cynrychiolaeth o'r ddwy ardal sy'n awgrymu nad yw Bangor ac Aberconwy yn ategu ei gilydd, fel y nodir yn y Cynigion Cychwynnol.

- Aduno cymunedau Bae Colwyn a Llandrillo yn Rhos yn un etholaeth (a wahanwyd yn y Cynigion Cychwynnol). Cefnogwyd hyn yn gryf gan yr Aelod Seneddol ac Aelod y Senedd dros Orllewin Clwyd – ac amlinellodd y cyntaf ei ddadleuon yn fanwl mewn gwrandawriad cyhoeddus. Roedd hyn yn destun cynrychiolaethau gan eraill hefyd, gan gynnwys mewn ail wrandawriad cyhoeddus. Cytunwn;
- Cynnal y cysylltiadau rhwng Bae Cinnel, y Rhyl a Thowyn yn un etholaeth, a oedd yn thema gyffredin mewn cynrychiolaethau niferus. Cytunwn, unwaith eto;
- Hefyd, cynnal y cysylltiadau rhwng Prestatyn a chymunedau amgylchynol fel Gronant, Ffynnongroew, Trelawnyd a Gwaenysgor;
- Dileu cymuned Rhuthun o etholaeth Delyn – thema gyffredin arall, gan gynnwys cynrychiolaethau gan yr Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd. Roedd rhannu'r ddwy gan Fryniau Clwyd yn ddadl ddilys yn ein barn ni, felly cytunwn; a
- Sicrhau bod wardiau etholiadol cyfagos Llangollen, Llangollen Wledig a Chorwen yn aros gyda'i gilydd (er bod gwahaniaeth barn o ran pa etholaeth oedd yn fwyaf priodol – roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio eu huno ag etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd, tra bod eraill yn ffafrio datrysiaid “Clwyd” neu Wrecsam);

## Y GOGLEDD-DDWYRAIN

123. A hithau'n ardal gymharol ddwys ei phoblogaeth, mae'r materion yn troi unwaith eto o amgylch bodloni uchafiaeth yr amrediad etholiadol statudol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn dwy ardal a oedd yn destun gwrthwynebiadau.

124. Roedd sawl cynrychiolaeth yn cefnogi cynnwys wardiau etholiadol y Fflint a Bagillt yn etholaeth **Alun a Glannau Dyfrdwy/Alyn and Deeside**, nid Delyn/Dwyrain Clwyd. Fodd bynnag, mae'r chwe ward sy'n fwyaf uniongyrchol gysylltiedig (o Orllewin Bagillt i Oakenholt y Fflint) yn cynnwys mwy na 12,500 o etholwyr. Felly, byddai'r amrediad etholiadol statudol yn cael ei danseilio'n ddifrifol yn y ddwy etholaeth heb addasiadau mawr, a deuwn i'r casgliad nad yw'r gwrthgynigion i fodloni'r gofyniad hwnnw'n gwella cydlynid cyffredinol yr ardal.

125. Felly, ffafriwn fodel sy'n debyg i'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaeth; ond gan drosglwyddo llai o wardiau etholiadol, sef trosglwyddo Llaneurgain a Neuadd Llaneurgain i Alun a Glannau Dyfrdwy o Ddelyn/Dwyrain Clwyd (a gynigiwyd gan un ymatebwr mewn gwrandawriad cyhoeddus). Byddai'r etholaeth gyntaf hefyd yn cynnwys wardiau etholiadol yr Orsedd a Marford a Hoseley o Wrecsam. Mae'n ymddangos bod gan yr Orsedd, yn arbennig, ryw faint o gysylltiad ag Alun a Glannau Dyfrdwy.

126. Yn unol â hynny, cydnabyddwn y bydd llawer o'r farn bod ein cynnig ynglŷn ag etholaeth **Wrecsam/Wrexham** yn llai na delfrydol (fel yr oedd y Cynigion Cychwynnol); ond heb ddatgysylltu rhai o'r wardiau etholiadol, mae'n amhosibl bodloni'r amrediad etholiadol statudol heb dresmasu'n sylweddol ar ardaloedd eraill, ac ystyriwn fod hynny'n annymunol. Dyna pam na ddilynem wrthgynnig Ceidwadwyr Cymru, er enghraifft. Yn arbennig, daethom i'r casgliad nad oedd eu dyluniad ar gyfer etholaeth “Dwyrain Clwyd” yn cyd-fynd â phwys y dystiolaeth o'r ardal.

127. Am resymau tebyg i'r Fflint/Bagillt, nid oeddem yn gallu bodloni'r gwrthwynebiadau i eithrio ardaloedd Rhiwabon, Llangollen a'r Waun o etholaeth Wrecsam.


128. Cydnabyddwn y cynrychiolaethau o'r cymunedau hyn sy'n amlygu'r cysylltiadau lleol â Wrecsam; ond nid oes modd eu cynnwys i gyd yn yr etholaeth oherwydd byddai hynny'n mynd â nifer yr etholwyr tua 10-15,000 yn uwch na'r uchafswm etholiadol statudol, yn dibynnu ar ble y byddai'r ffiniau'n cael eu tynnu. I'r gwrthwyneb, byddai nifer yr etholwyr yn yr etholaeth wedi'i seilio ar Sir Drefaldwyn (o dan y Cynigion Cychwynnol neu ein cynigion amgen ni) yn gostwng islaw'r isafswm sy'n ofynnol.

129. Roedd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr etholedig yn derbyn hyn, yn benodol neu'n ymhlwg.

130. Fodd bynnag, byddai ein dewis amgen yn galluogi gwyrddroi'r cynnig yn y Cynigion Cychwynnol i drosglwyddo wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd o Wrecsam i Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae hyn wedi bod yn destun gwrthwynebiadau niferus, a gefnogwyd gan yr Aelodau Seneddol dros Wrecsam a De Clwyd (yn ysgrifenedig ac mewn gwrandawriad cyhoeddus), yn ogystal â chynrychiolwyr etholedig eraill. Cytunwn â'r farn hon.

## YNYS MÔN

131. Nid yw'r etholaeth wedi newid o ystyried ei statws gwarchodedig o dan delerau'r Arolwg.



Adran Ch:

## Enwi a Dynodi

132. Ein man cychwyn yn y cyd-destun hwn yw gofynion y Ddeddf a pholisi datganedig y Comisiwn, fel y'u hamlinellir ar dudalennau 6 a 7 y Cynigion Cychwynnol.

133. Cytunwn i raddau helaeth â'r enwau a roddwyd i'r etholaethau arfaethedig yn y Cynigion Cychwynnol lle yr argymhellwn newidiadau cymharol fach neu ddim newidiadau i ffiniau. Y ddwy eithriad yw Pontypridd a Delyn, fel y nodwyd uchod.

134. Mewn mannau eraill, lle y cynigiwn newidiadau mwy sylweddol i ffiniau, argymhellir enwau amgen – a nodwyd hefyd mewn mannau amrywiol uchod.

135. Fodd bynnag, pan fydd y Comisiynwyr wedi penderfynu sut i symud ymlaen, argymhellwn y dylai'r Comisiwn wirio'r enwau lleoedd yn derfynol gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a'r awdurdodau lleol dan sylw o dan delerau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

136. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid ydym yn cynnig ymgynghoriad arall ar y mater hwn. Yn syml, dymunwn sicrhau cywirdeb llwyr (a'r enwau gorau ar etholaethau o safbwynt y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu) gan na fyddai'r un ohonom yn honni bod yn arbenigwyr ieithyddol. Sut bynnag, argymhellwn roi'r enw Cymraeg yn gyntaf, fel y nodwyd ym mhrif ran yr adroddiad hwn uchod.

137. Yng nghyd-destun dynodi, rydym wedi dilyn y ddeddfwriaeth a pholisi presennol y Comisiwn, unwaith eto. Mae'r rhan fwyaf wedi'u dynodi'n etholaethau sirol: yr eithriadau yw'r etholaethau bwrdeistrefol arfaethedig hynny a restrir yn nhrefn yr wyddor isod:

- Y Barri, Penarth a De Caerdydd;
- Canol a Dwyrain Caerdydd;
- Gogledd Caerdydd;
- Gorllewin Caerdydd;
- Dwyrain Casnewydd;
- Dwyrain Abertawe.

### Materion eraill

138. Yn gyntaf, wrth lunio'r cynigion hyn, credwn yr oedd dyletswydd arnom i fyfyrion o leiaf ar b'un a fyddent yn gwella **cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd** ai peidio (ni waeth pa mor anuniongyrchol). Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol, Awdurdodau Lleol ac eraill yn ymroi llawer o amser ac ymdrech i'w hyrwyddo, ac maen nhw'n iawn i wneud hynny.

139. Mae cynyddu cyfranogiad yn amcan a rennir gan yr holl randdeiliaid – ni ddaethom ar draws unrhyw un a oedd yn gwrthwynebu. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun etholiadol yng Nghymru yn gynyddol gymhleth o safbwynt yr etholwr – a gallai'r cymhlethdod hwn rwystro cyfranogiad mewn rhai amgylchiadau.

140. Nid yw ein cylch gorchwyl yn ymestyn mewn unrhyw ffordd i etholiadau datganoledig neu faterion cyfansoddiadol; ond mae etholiadau gwahanol yng Nghymru eisoes yn cael eu cynnal o dan systemau pleidleisio gwahanol, etholfreintiau amrywiol rhyngddynt ac, o bosibl yn y dyfodol, olion traed gwahanol o ran etholaethau daearyddol. Felly, deawn i'r casgliad mai ar yr ymylon eithafol y byddai ein cynigion yn cael unrhyw effaith ar gyfranogiad. Er hynny, credwn ei bod yn bwysig cofnodi'r ffaith ein bod wedi ystyried y mater, o leiaf, o fewn cyfyngiadau ein cylch gorchwyl.

141. Yn ail, derbyniwyd rhai cynrychiolaethau gan **weinyddwyr etholiadol** yn ymwneud â newidiadau a allai wneud eu rôl yn fwy cymhleth. Y rheswm am hyn, yn y bôn, yw po leiaf y mae etholaethau a phrif awdurdodau lleol yn cydffinio, y mwyaf cymhleth y daw'r sefyllfa o safbwynt gweinyddol.

142. Cydnabyddwn resymeg y dadleuon hyn; ond wrth ddadansoddi'n derfynol, roeddem yn teimlo bod rhaid i ni eu hystyried yn eilaidd. Mae'r cymhlethdod cynyddol a drafodwyd uchod yn ffaith – ni waeth am ganlyniad yr arolwg hwn. Er hynny, yn ein cynigion ni, mae mwy o etholaethau wedi'u cynnwys o fewn un ardal weinyddol awdurdod lleol na'r Cynigion Cychwynnol, fel y nodir isod.

143. Yn drydydd, mae cynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar wedi cyfeirio at effaith y Cynigion Cychwynnol (neu unrhyw rai eraill) ar **lwyth gwaith Aelodau Seneddol a'u staff cymorth**, yn enwedig lle byddai ffiniau etholaeth newydd yn golygu bod angen cysylltu â dau neu fwy o awdurdodau lleol, er enghraifft. Mae'n bwynt dilyn; ond mae hefyd yn wir bod y llwyth gwaith hwn yn cael ei rannu bellach rhwng Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd, yn enwedig lle mae etholaeth yn cael ei chynrychioli gan Aelod Seneddol ac Aelod o'r Senedd o'r un blaid wleidyddol, sy'n aml yn rhannu swyddfa etholaeth.

144. Yn bedwerydd, cyfeiriwyd at ffiniau etholaeth yn torri ar draws ardaloedd gweinyddol **cynghorau tref neu gymuned**. Unwaith eto, mae'n bwynt dilyn. Fodd bynnag, yn ein barn ni, ystyriaeth eilaidd arall yw hyn yn sicr.

145. Derbyniwn bolisi presennol y Comisiwn ynglŷn â rhagdybiaeth yn erbyn "cymunedau hollt"; ond nid yw daearyddiaeth cynghorau tref a chymuned yn rhychwantu Cymru gyfan (o bell ffordd) – neu hyd yn oed ardaloedd cyfan rhai etholaethau presennol. Felly, o ystyried yr amryw lefelau llywodraethu yng Nghymru, mae'r anghysondeb hwn yn anochel bron yn rhywle. Heriwn hefyd p'un a yw ffiniau cynghorau cymuned a chanfyddiad y cyhoedd o gymuned yr un fath mewn rhai ardaloedd.

## Casgliad

146. Rhoddir map yn Atodiad 2 sy'n dangos y darlun cyffredinol a gynhyrchir gan ein hargymhellion.

147. I grynhoi, deawn i'r casgliad fod y Cynigion Cychwynnol yn cynrychioli sail gadarn ar gyfer mwy na hanner yr etholaethau yng Nghymru gyda mân newidiadau yn unig neu ddim newidiadau. Fodd bynnag, mae ardaloedd lle y credwn fod dull arall yn amgenach.

148. Nid ydym yn cytuno â'r holl wrthwynebiadau; ond mae ein dull yn bodloni mwyafrif sylweddol o'r themâu sy'n codi droeon yr ydym yn cytuno â nhw. Fodd bynnag, mae bron yn sicr y bydd ein cynigion yn ysgogi gwrthwynebiad lleol, y bydd rhywfaint ohono'n groch. Ond anogwn yr holl ymatebwyr i ystyried sefyllfa ehangach Cymru gyfan. Ni allem wneud fel arall.



149. O ran y cydweddiad â ffiniau prif awdurdodau lleol, mae ein cynigion yn cynnwys dwy etholaeth sy'n pontio tair ffin awdurdod lleol<sup>1</sup> tra bod un yn y Cynigion Cychwynnol; ond mae ein cynigion ni'n cynnwys 19 o etholaethau mewn un awdurdod lleol, o gymharu â 17 yn y Cynigion Cychwynnol a thair etholaeth yn llai sy'n rhychwantu dwy ardal awdurdod lleol. At hynny, mae gan y Cynigion Cychwynnol a'r cynigion hyn yr un nifer o etholaethau sy'n uwch neu'n is na chwota etholiadol y Deyrnas Unedig.

150. Cysyniad goddrychol ydyw, efallai; ond, at ei gilydd, credwn fod y cynigion hyn yn decach ac yn fwy cytbwys yn gyffredinol. Yn benodol, rydym wedi ceisio datrys materion a gwrthwynebiadau yn yr ardal uniongyrchol (a/neu gyfagos) lle maen nhw'n codi a, lle y bo'n bosibl, nid ymhellach i ffwrdd. Ni ddylai ac ni all map etholiadol Cymru droi o amgylch nifer gyfyngedig o etholaethau neu ardaloedd, yn ein barn ni.

151. Fodd bynnag, diweddwn lle y dechreuom: nid oes datrysiad perffaith ar sail Cymru gyfan.


**STEVEN PHILLIPS** (Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol)

**ANDREW CLEMES**

**Dr GWENLLIAN LANSDOWN DAVIES**

**Dr ARUN MIDHA**

**Comisiynwyr Cynorthwyol**



---

<sup>1</sup> Sgil-gynyrch cadw ward unigol Llangollen Wledig gyda gweddill ei hardal uniongyrchol – gweler paragraff 122 uchod.

Atodiad A:

## Gwybodaeth a Data Manwl am Wardiau Etholiadol

| Ward Etholiadol              | Etholwy | Etholaeth Arfaethedig  |
|------------------------------|---------|------------------------|
| Aston                        | 2,508   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Gogledd Ddwyrain Brychdyn    | 1,723   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| De Brychdyn                  | 3,325   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Dwyrain Bistre Bwcle         | 2,653   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Gorllewin Bistre Bwcle       | 3,182   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Mynydd Bwcle                 | 2,555   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Pentrobin Bwcle              | 4,181   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Caergwrle                    | 1,225   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Canol Cei Conna              | 2,213   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Cei Conna Golftyn            | 3,688   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| De Cei Conna                 | 4,494   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Cei Conna Gwepira            | 1,647   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Ewlo                         | 4,327   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Penarlâg                     | 1,623   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Higher Kinnerton             | 1,373   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Yr Hôb                       | 2,042   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Llanfynydd                   | 1,483   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Mancot                       | 2,516   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Marford a Hoseley            | 1,824   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Northop                      | 2,596   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Northop Hall                 | 1,398   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Penyffordd                   | 3,543   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Queensferry                  | 1,248   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Yr Orsedd                    | 2,643   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug | 1,100   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Saltney Stonebridge          | 2,672   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Sealand                      | 2,026   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Dwyrain Shotton              | 1,219   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Shotton Uchaf                | 1,669   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Gorllewin Shotton            | 1,464   | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Treuddyn                     | 1,346   | Alun a Glannau Dyfrdwy |

71,506

| <b>Ward Etholiadol</b> | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b>    |
|------------------------|-----------------|---------------------------------|
| Adamsdown              | 5,692           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Baruc                  | 6,080           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Butetown               | 7,834           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Buttrills              | 4,447           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Cadog                  | 7,244           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Castleland             | 3,442           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Cornerswell            | 4,069           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Court                  | 3,370           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Grangetown             | 13,257          | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Llandoche              | 1,578           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Plymouth               | 4,584           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| St. Augustine's        | 5,318           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Stanwell               | 3,365           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |
| Sili                   | 3,696           | Y Barri, Dê Caerdydd a Phenarth |

73,976

| <b>Ward Etholiadol</b>      | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|-----------------------------|-----------------|------------------------------|
| Aberbargod                  | 2,706           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Abertyleri                  | 3,074           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Badminton                   | 2,452           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Bargod                      | 4,431           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Cendl                       | 2,717           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Blaenau                     | 3,497           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Brynmawr                    | 4,028           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Cwm                         | 3,254           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Cwmtyleri                   | 3,383           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Cwm Darren                  | 1,870           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Gogledd Glynebwy            | 3,268           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| De Glynebwy                 | 2,959           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Georgetown                  | 3,091           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Gilfach                     | 1,534           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Llanhilledd                 | 3,387           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Moriah                      | 3,128           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Nant-y-glo                  | 3,350           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Tredeggar Newydd            | 3,357           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Pontlotyn                   | 1,432           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Rasa                        | 2,463           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Sirhywi                     | 4,210           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Six Bells                   | 1,740           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Canol a Gorllwein Tredeggar | 4,027           | Blaenau Gwent a Rhymni       |
| Twyncarno                   | 1,721           | Blaenau Gwent a Rhymni       |

71,079

| <b>Ward Etholiadol</b>  | <b>Etholwy</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|-------------------------|----------------|------------------------------|
| Abercynffig             | 1,868          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Betws                   | 1,595          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Melin Ifan Ddu          | 1,839          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Blaengarw               | 1,333          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Bracla                  | 8,276          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Bryncethin              | 1,261          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Bryncoch                | 1,757          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Cefn Cribwr             | 1,180          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Cefn Glas               | 1,360          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Coety                   | 3,006          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Corneli                 | 5,359          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Llangrallo Isaf         | 1,160          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Felindre                | 2,087          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Hendre                  | 3,175          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Litchard                | 2,080          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Llangeinor              | 887            | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Llangewydd a Brynhyfryd | 1,878          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Llangynwyd              | 2,351          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Morfa                   | 3,210          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Nant-y-moel             | 1,745          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Castellnewydd           | 4,287          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Bro Ogwr                | 2,357          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Hengastell              | 3,783          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Pendre                  | 1,654          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Pen-prysg               | 2,474          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Pen-y-fai               | 1,853          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Pontycymer              | 1,773          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Pil                     | 5,545          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Sarn                    | 1,786          | Pen-y-bont ar Ogwr           |
| Ynysawdre               | 2,748          | Pen-y-bont ar Ogwr           |

75,667

| <b>Ward Etholiadol</b>     | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|----------------------------|-----------------|------------------------------|
| Abergwili                  | 1,912           | Caerfyrddin                  |
| Rhydaman                   | 1,984           | Caerfyrddin                  |
| Y Betws                    | 1,825           | Caerfyrddin                  |
| Gogledd Tref Caerfyrddin   | 3,691           | Caerfyrddin                  |
| De Tref Caerfyrddin        | 2,746           | Caerfyrddin                  |
| Gorllewin Tref Caerfyrddin | 3,601           | Caerfyrddin                  |
| Cenarth                    | 1,669           | Caerfyrddin                  |
| Cil-y-cwm                  | 1,175           | Caerfyrddin                  |
| Cynwyl Elfed               | 2,468           | Caerfyrddin                  |
| Cynwyl Gaeo                | 1,351           | Caerfyrddin                  |
| Y Garnant                  | 1,558           | Caerfyrddin                  |
| Glanaman                   | 1,802           | Caerfyrddin                  |
| Lacharn                    | 2,161           | Caerfyrddin                  |
| Llanboidy                  | 1,705           | Caerfyrddin                  |
| Llanddarog                 | 1,678           | Caerfyrddin                  |
| Llandeilo                  | 2,307           | Caerfyrddin                  |
| Llanymddyfri               | 1,963           | Caerfyrddin                  |
| Llandybie                  | 3,277           | Caerfyrddin                  |
| Llanegwad                  | 2,040           | Caerfyrddin                  |
| Llanfihangel Aberbythych   | 1,503           | Caerfyrddin                  |
| Llanfihangel-ar-arth       | 2,196           | Caerfyrddin                  |
| Llangadog                  | 1,629           | Caerfyrddin                  |
| Llanger                    | 2,772           | Caerfyrddin                  |
| Llangynnwr                 | 2,077           | Caerfyrddin                  |
| Llansteffan                | 1,656           | Caerfyrddin                  |
| Llanybydder                | 2,027           | Caerfyrddin                  |
| Maenordeilo a Salem        | 1,816           | Caerfyrddin                  |
| Pen-y-groes                | 2,347           | Caerfyrddin                  |
| Pontaman                   | 2,092           | Caerfyrddin                  |
| Pontaman (ar wahan)        | 0               | Caerfyrddin                  |
| Cwarter Bach               | 2,218           | Caerfyrddin                  |
| Saron                      | 3,353           | Caerfyrddin                  |
| Sanclêr                    | 2,500           | Caerfyrddin                  |
| Tre-lech                   | 1,754           | Caerfyrddin                  |
| Hendy-gwyn-ar Daf          | 1,830           | Caerfyrddin                  |

72,683

| <b>Ward Etholiadol</b>     | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|----------------------------|-----------------|------------------------------|
| Cwm Aber                   | 4,655           | Caerffili                    |
| Bedwas, Trethomas a Machen | 7,902           | Caerffili                    |
| Cefn Fforest               | 2,845           | Caerffili                    |
| Hengoed                    | 4,055           | Caerffili                    |
| Llanbradach                | 3,239           | Caerffili                    |
| Maesycwmwr                 | 1,811           | Caerffili                    |
| Morgan Jones               | 5,636           | Caerffili                    |
| Nelson                     | 3,563           | Caerffili                    |
| Pengam                     | 2,760           | Caerffili                    |
| Penyrheol                  | 9,021           | Caerffili                    |
| Pontllan-fraith            | 6,343           | Caerffili                    |
| Sant Catwg                 | 5,579           | Caerffili                    |
| Sant James                 | 4,267           | Caerffili                    |
| Sant Martin                | 6,582           | Caerffili                    |
| Ystrad Mynach              | 4,067           | Caerffili                    |

72,325

| <b>Ward Etholiadol</b> | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|------------------------|-----------------|------------------------------|
| Cathays                | 13,099          | Canol a Dwyrain Caerdydd     |
| Gabalfa                | 5,922           | Canol a Dwyrain Caerdydd     |
| Llanrhymni             | 7,758           | Canol a Dwyrain Caerdydd     |
| Pen-y-lan              | 9,858           | Canol a Dwyrain Caerdydd     |
| Plasnewydd             | 12,285          | Canol a Dwyrain Caerdydd     |
| Tredelerch             | 6,536           | Canol a Dwyrain Caerdydd     |
| Y Sblot                | 9,081           | Canol a Dwyrain Caerdydd     |
| Trowbridge             | 11,076          | Canol a Dwyrain Caerdydd     |

75,615



| <b>Ward Etholiadol</b>         | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|--------------------------------|-----------------|------------------------------|
| Cyncoed                        | 8,475           | Gogledd Caerdydd             |
| Y Mynydd Bychan                | 9,611           | Gogledd Caerdydd             |
| Llys-faen                      | 2,942           | Gogledd Caerdydd             |
| Llanisien                      | 13,492          | Gogledd Caerdydd             |
| Pentwyn                        | 10,783          | Gogledd Caerdydd             |
| Pontpennau/Yr Hen Laneirwg     | 8,047           | Gogledd Caerdydd             |
| Rhiwbeina                      | 9,354           | Gogledd Caerdydd             |
| Yr Eglwys Newydd a Tongwynlais | 12,928          | Gogledd Caerdydd             |

75,632

| <b>Ward Etholiadol</b> | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|------------------------|-----------------|------------------------------|
| Caerau                 | 7,859           | Gorllewin Caerdydd           |
| Treganna               | 11,457          | Gorllewin Caerdydd           |
| Creigiau/Sain Ffagan   | 4,409           | Gorllewin Caerdydd           |
| Trelái                 | 9,576           | Gorllewin Caerdydd           |
| Y Tyllgoed             | 9,642           | Gorllewin Caerdydd           |
| Llandaf                | 7,078           | Gorllewin Caerdydd           |
| Ystum Taf              | 5,992           | Gorllewin Caerdydd           |
| Pentyrch               | 2,819           | Gorllewin Caerdydd           |
| Radur                  | 5,425           | Gorllewin Caerdydd           |
| Glanyrafon             | 9,621           | Gorllewin Caerdydd           |

73,878

| <b>Ward Etholiadol</b>           | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|----------------------------------|-----------------|------------------------------|
| Aberaeron                        | 1,088           | Ceredigion Preseli           |
| Aber-porth                       | 1,839           | Ceredigion Preseli           |
| Aberteifi /Cardigan-Mwldan       | 1,522           | Ceredigion Preseli           |
| Aberteifi/ Cardigan-Rhyd-y-Fuwch | 895             | Ceredigion Preseli           |
| Aberteifi/ Cardigan-Teifi        | 824             | Ceredigion Preseli           |
| Aberystwyth Bronglais            | 936             | Ceredigion Preseli           |
| Aberystwyth Canol/Central        | 1,358           | Ceredigion Preseli           |
| Aberystwyth Gogledd/North        | 1,478           | Ceredigion Preseli           |
| Aberystwyth Penparcau            | 2,084           | Ceredigion Preseli           |
| Aberystwyth Rheidol              | 1,776           | Ceredigion Preseli           |
| Beulah                           | 1,413           | Ceredigion Preseli           |
| Y Borth                          | 1,677           | Ceredigion Preseli           |
| Capel Dewi                       | 1,068           | Ceredigion Preseli           |
| Ceulan-a-Maesmor                 | 1,551           | Ceredigion Preseli           |
| Cilgerran                        | 1,594           | Ceredigion Preseli           |
| Ciliau Aeron                     | 1,613           | Ceredigion Preseli           |
| Clydau                           | 1,189           | Ceredigion Preseli           |
| Crymych                          | 2,099           | Ceredigion Preseli           |
| Dinas Cross                      | 1,313           | Ceredigion Preseli           |
| Faenor                           | 1,985           | Ceredigion Preseli           |
| Gogledd Ddwyrain Abergwaun       | 1,495           | Ceredigion Preseli           |
| Gogledd Orllewin Abergwaun       | 1,208           | Ceredigion Preseli           |
| Wdig                             | 1,509           | Ceredigion Preseli           |
| Llanbedr Pont Steffan            | 1,660           | Ceredigion Preseli           |
| Llannarth                        | 1,222           | Ceredigion Preseli           |
| Llanbadarn Fawr - Padarn         | 767             | Ceredigion Preseli           |
| Llanbadarn Fawr - Sulien         | 973             | Ceredigion Preseli           |
| Llandyfriog                      | 1,466           | Ceredigion Preseli           |
| Llandysiliogogo                  | 1,653           | Ceredigion Preseli           |
| Tref Llandysul                   | 1,067           | Ceredigion Preseli           |
| Llanfarian                       | 1,193           | Ceredigion Preseli           |
| Llanfihangel Ystrad              | 1,666           | Ceredigion Preseli           |
| Llangeitho                       | 1,168           | Ceredigion Preseli           |
| Llangybi                         | 1,186           | Ceredigion Preseli           |
| Llanrhian                        | 1,232           | Ceredigion Preseli           |
| Llanrhystyd                      | 1,255           | Ceredigion Preseli           |
| Llansanffraid                    | 1,935           | Ceredigion Preseli           |
| Llanwenog                        | 1,419           | Ceredigion Preseli           |
| Lledrod                          | 1,812           | Ceredigion Preseli           |
| Maenclochog                      | 2,462           | Ceredigion Preseli           |
| Melindwr                         | 1,578           | Ceredigion Preseli           |
| Ceinewydd                        | 810             | Ceredigion Preseli           |
| Trefdraeth                       | 878             | Ceredigion Preseli           |
| Penbryn                          | 1,762           | Ceredigion Preseli           |
| Pen-parc                         | 1,933           | Ceredigion Preseli           |
| Scleddau                         | 1,158           | Ceredigion Preseli           |
| Llandudoch                       | 1,775           | Ceredigion Preseli           |
| Tirymynach                       | 1,403           | Ceredigion Preseli           |
| Trefeurig                        | 1,382           | Ceredigion Preseli           |
| Tregaron                         | 951             | Ceredigion Preseli           |
| Troed-yr-aur                     | 1,110           | Ceredigion Preseli           |
| Ystwyth                          | 1,673           | Ceredigion Preseli           |

74,063

| <b>Ward Etholiadol</b>     | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|----------------------------|-----------------|------------------------------|
| Argoed                     | 2,167           | Dwyrain Clwyd                |
| Dwyrain Bagillt            | 1,413           | Dwyrain Clwyd                |
| Gorllewin Bagillt          | 1,625           | Dwyrain Clwyd                |
| Brynffordd                 | 1,789           | Dwyrain Clwyd                |
| Caerwys                    | 2,050           | Dwyrain Clwyd                |
| Cilcain                    | 1,519           | Dwyrain Clwyd                |
| Dyserth                    | 1,882           | Dwyrain Clwyd                |
| Ffynnongroyw               | 1,474           | Dwyrain Clwyd                |
| Castell Y Fflint           | 1,426           | Dwyrain Clwyd                |
| Coleshill Y Fflint         | 2,938           | Dwyrain Clwyd                |
| Oakenholt Y Fflint         | 2,538           | Dwyrain Clwyd                |
| Trelawny Y Fflint          | 2,710           | Dwyrain Clwyd                |
| Maes-glas                  | 1,983           | Dwyrain Clwyd                |
| Gronant                    | 1,257           | Dwyrain Clwyd                |
| Waun                       | 1,646           | Dwyrain Clwyd                |
| Gwernymynydd               | 1,399           | Dwyrain Clwyd                |
| Helygain                   | 1,427           | Dwyrain Clwyd                |
| Canol Treffynnon           | 1,465           | Dwyrain Clwyd                |
| Dwyrain Treffynnon         | 1,383           | Dwyrain Clwyd                |
| Gorllewin Treffynnon       | 1,762           | Dwyrain Clwyd                |
| Coed-llai                  | 1,627           | Dwyrain Clwyd                |
| Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla | 2,033           | Dwyrain Clwyd                |
| Broncoed Yr Wyddgrug       | 2,134           | Dwyrain Clwyd                |
| Dwyrain Yr Wyddgrug        | 1,556           | Dwyrain Clwyd                |
| De Yr Wyddgrug             | 2,201           | Dwyrain Clwyd                |
| Gorllewin Yr Wyddgrug      | 1,956           | Dwyrain Clwyd                |
| Mostyn                     | 1,458           | Dwyrain Clwyd                |
| New Brighton               | 2,414           | Dwyrain Clwyd                |
| Canol Prestatyn            | 2,829           | Dwyrain Clwyd                |
| Dwyrain Prestatyn          | 3,162           | Dwyrain Clwyd                |
| Prestatyn Allt Melyd       | 1,529           | Dwyrain Clwyd                |
| Gogledd Prestatyn          | 4,729           | Dwyrain Clwyd                |
| De Orllewin Prestatyn      | 2,861           | Dwyrain Clwyd                |
| Trelawnyd a Gwaenysgor     | 1,496           | Dwyrain Clwyd                |
| Chwitffordd                | 1,911           | Dwyrain Clwyd                |

69,749

| <b>Ward Etholiadol</b> | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|------------------------|-----------------|------------------------------|
| Betws-yn-Rhos          | 1,623           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Bettws-y-Coed          | 967             | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Caerhun                | 1,677           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Colwyn                 | 3,373           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Conwy                  | 3,295           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Craig-y-Don            | 2,685           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Crwst                  | 1,581           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Deganwy                | 3,289           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Eglwysbach             | 1,257           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Eirias                 | 2,800           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Gele                   | 3,997           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Glyn                   | 3,088           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Gogarth                | 2,795           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Gower                  | 850             | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Llanddulas             | 1,353           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Llandrillo-yn-Rhos     | 6,110           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Llangernyw             | 1,104           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Llansanffraid          | 1,814           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Llysfaen               | 1,906           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Marl                   | 3,539           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Mochdre                | 1,425           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Mostyn                 | 2,758           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Penrhyn                | 3,874           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Pensarn                | 2,274           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Rhiw                   | 4,991           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Trefriw                | 1,026           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Tudno                  | 3,591           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |
| Uwch Conwy             | 1,276           | Conwy a Gorllewin Clwyd      |

70,318

| <b>Ward Etholiadol</b>              | <b>Etholwyr</b> | <b>Etholaeth Arfaethedig</b> |
|-------------------------------------|-----------------|------------------------------|
| Abergele Pensarn                    | 1,959           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Bodelwyddan                         | 1,612           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Corwen                              | 1,799           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Canol Dinbych                       | 1,462           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Dinbych Isaf                        | 3,483           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Dinbych Uchaf/Henllan               | 2,265           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Efenechdyd                          | 1,321           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Bae Cinmel                          | 4,607           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal | 1,170           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llandrillo                          | 931             | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llandyrnog                          | 1,765           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern  | 1,830           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llangollen                          | 3,302           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llangollen Wledig                   | 1,631           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch         | 1,496           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Llansannan                          | 1,495           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Pentre Mawr                         | 2,861           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Rhuddlan                            | 2,913           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Dwyrain Y Rhyl                      | 3,693           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| De Y Rhyl                           | 2,874           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| De Ddwyrain Y Rhyl                  | 6,253           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| De Orllewin Y Rhyl                  | 3,732           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Gorllewin Y Rhyl                    | 3,283           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Rhuthun                             | 4,260           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Dwyrain Llanelwy                    | 1,472           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Gorllewin Llanelwy                  | 1,290           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Tywyn                               | 1,845           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Trefnant                            | 1,503           | Dinbych a Dê Clwyd           |
| Tremeirchion                        | 1,344           | Dinbych a Dê Clwyd           |
